Rhif: WG41694

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: adroddiad cwmpasu terfynol

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Tachwedd 2020

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80082-474-4

# ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG O STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CYMRU

Adroddiad Cwmpasu Terfynol

HYDREF 2020

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-792-0

Cwmni cyfyngedig preifat yw Arcadis Consulting (UK) Limited sydd wedi’i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestredig: 02212959). Swyddfa gofrestredig, Arcadis House, 34 York Way, Llundain, N1 9AB. Rhan o Grŵp Cwmnïau Arcadis ynghyd ag endidau eraill yn y DU.

Hawlfraint © 2020 Arcadis. Cedwir pob hawl. arcadis.com

# RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Mawrth 2020 | OL/NM/PC/ST/DH | Drafft Cyntaf ar gyfer sylwadau'r cleient |
| 2 | Mawrth 2020 | ST/OL/NM/DH | Ail Ddrafft ar gyfer ymgynghori a anfonwyd i'w gyfieithu |
| 3 | Ebrill 2020 | ST/OL/NM/DH/JE | Trydydd Drafft ar gyfer ymgynghori, yn dilyn sylwadau mewnol pellach LlC. |
| 4 | Hydref 2020 | ST/OL/NM/DH/JE | Terfynol, wedi'i ddiwygio yn dilyn ymatebion gan ymgyngoreion. |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig 6 Hydref 2020, ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r apwyntiad dyddiedig 30 Ionawr 2020 (yr "Apwyntiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis** at y dibenion a nodwyd yn yr Apwyntiad. I osgoi amheuaeth, ni all unrhyw berson(au) arall/eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn neu ei gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath ar hynny gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS


TALFYRIADAU ..... I

1 CRYNODEB ..... 1

2 CEFNDIR I STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CYMRU A DIBEN YR ADRODDIAD CWMPASU ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG ..... 3

2.1 Cyflwyniad ..... 3

2.2 Beth yw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru? ..... 3

2.3 Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig? ..... 4

2.4 Beth yw'r berthynas rhwng Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? ..... 8

2.5 Sut mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cysylltu â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru? ..... 14

2.6 A fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal? ..... 15

2.7 Pa ymgynghori a wnaed ar yr Adroddiad Cwmpasu? ..... 16

3 PROSES YR ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG ..... 17

3.1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ..... 17

3.2 Dull integredig o asesu effeithiau ..... 20

4 ADOLYGU CYNLLUNIAU, RHAGLENNI AC AMCANION AMGYLCHEDDOL PERTHNASOL (A1) ..... 24

4.1 Cyflwyniad ..... 24


## ATODIADAU


Atodiad A: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

Atodiad B: Data Llinell Sylfaen, Materion Allweddol a Chyfleoedd

Atodiad C: Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Atodiad D: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

## Talfyriadau

| Talfyriad | Diffiniad |
|---|---|
| $CO_2$ | Carbon Deuocsid |
| yACA | Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| dAGA | Darpar Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |

# 1 Crynodeb

1.1.1 Mae Arcadis Consulting (UK) Limited (Arcadis) yn datblygu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a fydd yn helpu i sicrhau bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru, gan hefyd ymwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o lunio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Nod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth dros y 25 mlynedd nesaf a darparu'r fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch opsiynau buddsoddi yn y dyfodol.

1.1.2 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cyfuno nifer o wahanol ddulliau o asesu, gan gynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (gofyniad cyfreithiol Ewropeaidd). Yr arfer gorau yw cyfuno'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn un broses gydlynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio sawl asesiad effaith arall gyda'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, i ffurfio Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gan gynnwys: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; y Gymraeg; Prawfesur Gwledig; Hawliau Plant; Newid Hinsawdd; Datblygiad Economaidd; ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae rhai o'r rhain yn asesiadau effaith statudol ac mae rhai yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r disgrifiad pellach yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

1.1.3 Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynrychioli cam cyntaf proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn gynnyrch allweddol o Gam Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae hwn wedi'i ddatblygu drwy'r adolygiad o'r cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni perthnasol, yn ogystal ag adolygiad o'r wybodaeth sylfaenol berthnasol, a nodi unrhyw faterion neu gyfleoedd cynaliadwyedd allweddol. Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r prif ddull asesu a ddefnyddir yn ystod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n cynnwys cyfres o 13 o Amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n cynnwys materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd, gan sicrhau bod gofynion pob asesiad integredig wedi'u cynnwys. Defnyddir hyn i asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wrth iddi ddatblygu. Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw:

1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru
2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb
3. Cefnogi twf economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth
4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden
5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg
6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth
7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd
8. Diogelu a gwella ansawdd aer
9. Diogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau

10. Hybu gwarchod a gwella asedau treftadaeth
11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol
13. Sicrhau camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau

1.1.4 Mae’r Adroddiad Cwmpasu hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad â’r ymgyngoreion statudol, yn ogystal â’r cyhoedd ehangach. Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig uchod yn adlewyrchu newidiadau a wnaed yn dilyn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, a nodir yn Atodiad D o’r adroddiad hwn.

# 2 Cefndir i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Diben yr Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n paratoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran allweddol i’w chwarae o ran sicrhau Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd.

2.1.2 Mae’n bwysig bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth gynhwysfawr o effeithiau cadarnhaol a niweidiol tebygol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. I wneud hyn, mae Arcadis Consulting (UK) Limited (arcadis) yn datblygu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn helpu i sicrhau bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru, y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn ymwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy ar bob cam o’r broses o lunio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

2.1.3 Mae’r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cynrychioli cam cyntaf proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

## 2.2 Beth yw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru?

2.2.1 Dogfen statudol yw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy’n ofynnol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan nodi ei pholisïau a sut y byddant yn cael eu harfer. Mae’n cynnwys pob modd ac yn cyflwyno blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a’r canlyniadau dymunol, gan gynnig cysylltiad â’r blaenoriaethau ehangach yn ogystal â chynlluniau ar lefel awdurdod lleol. Mae Adran 2(3) y Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw Strategaeth Drafnidiaeth Cymru dan adolygiad ac yn rhoi’r gallu i’w diwygio o bryd i’w gilydd.

2.2.2 Yn 2003 y cyhoeddwyd y fersiwn flaenorol o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Cymru’n Un: Cysylltu’r Genedl). Yn ystod y degawd diwethaf mae llawer wedi newid, gan gynnwys datganoli rhagor o bwerau i Gynulliad Cymru; cyhoeddi deddfwriaeth sy’n gorgyffwrdd (Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015); a disgwylir rhagor o newidiadau yn sgil diwygiadau i Lywodraeth Leol; cyllid ôl-Brexit a’n perthynas ag eraill; a datganoli rhagor o gyfrifoldebau sy’n ymwneud â thrafnidiaeth, yn ogystal â newidiadau yn sgil effaith COVID-19.

2.2.3 Yn erbyn y cefndir hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd i ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth dros y 25 mlynedd nesaf, sy’n cydnabod y newidiadau diweddar hyn ac yn ceisio mynd i’r afael â chyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Bydd y Strategaeth yn darparu’r fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau am opsiynau buddsoddi yn y dyfodol. Ni fydd yn nodi nac yn cyflwyno prosiectau, cynlluniau, mentrau nac ymyriadau penodol, a fydd yn cael eu nodi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol manwl 5 mlynedd a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

## 2.3 Beth yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

2.3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn yr hirdymor. Un o'r dulliau allweddol o sicrhau hyn yw mabwysiadu dull integredig o ran datblygu strategaethau a pholisïau. Nodir bod y termau Asesiad Effaith Integredig ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn dermau gwahanol yn eu hanfod sydd a'r un ystyr.

2.3.2 Er mai proses yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer rhagweld a gwerthuso effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol cynllun a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses o lunio cynllun, gellir ei ddefnyddio hefyd i nodi effeithiau diwylliannol sy'n galluogi iddo fod yn gyson â phedair elfen o ddatblygu cynaliadwy yng nghyfraith Cymru.

2.3.3 Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn un o ofynion sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol)[1] a droswyd yn uniongyrchol i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol[2]. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi ei gynnwys yn y broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n broses systemig ar gyfer arfarnu canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu cyn gynted â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae Erthygl 1 y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn nodi mai'r nod yw:

*'provide for a high level of protection of the environment and to contribute to the integration of environmental considerations into the preparation and adoption of plans and programmes with a view to promoting sustainable development'.*

2.3.4 Asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cynllun yw Arfarniad Cynaliadwyedd, a gynhelir o ddechrau proses llunio Cynllun i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd yn broses systematig ac ailadroddol sy'n nodi ac yn adrodd ar i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir diffinio datblygu cynaliadwy drwyddynt ac yn nodi cyfleoedd i wella perfformiad cynllun yng nghyswllt y rhain.

2.3.5 Mae'n arfer gorau integreiddio Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn un broses gydlynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio sawl asesiad effaith arall â'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol i greu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gan gynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Y Gymraeg;
- Prawfesur Gwledig;
- Hawliau Plant;
- Y Newid yn yr Hinsawdd;

[1] Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd

[2] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (OS 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, *the Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004* (SI 2004/1633)

- Datblygu Economaidd (gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol); ac
- Asesu'r Effaith ar Iechyd.

2.3.6 Mae rhai o'r rhain yn asesiadau effaith statudol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai yn ofynnol, fel y disgrifir yn ddiweddarach yn Adran 2 yr Adroddiad hwn.

2.3.7 Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn nodi pynciau penodol yn Atodiad 1(f) y mae'n ofynnol eu hystyried trwy gydol yr Asesiad Amgylchedd Strategol ac a fydd yn elfen allweddol o'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig hwn felly. Mae hyn yn cynnwys:


- Bioamrywiaeth;
- Poblogaeth;
- Iechyd pobl;
- Ffawna;
- Fflora;
- Pridd;
- Dŵr;
- Aer;
- Ffactorau hinsoddol;
- Asedau perthnasol;
- Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol;
- Tirwedd; a'r
- Rhyngberthynas rhwng y ffactorau uchod.

2.3.8 Mae proses Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar y gweill hefyd. Mae hyn ar wahân i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Proses o benderfynu a allai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru arwain o bosibl at effeithiau arwyddocaol ar gyfanrwydd safleoedd o werth bioamrywiaeth pwysig a ddynodwyd yn rhyngwladol yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

2.3.9 Mae'r angen i fabwysiadu dull integredig yn ganolog i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae rhai o'r rhain yn asesiadau effaith statudol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai'n ofynnol fel y disgrifir ymhellach yn Adran 2 yr Adroddiad hwn.

2.3.10 Mae integreiddio'r asesiadau eraill hyn yn sicrhau y mabwysiadir dull cydweithredol ar gyfer gwahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn ffordd gyson a thryloyw. Mae hyn yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr ar gyfer nodi problemau a chyfleoedd, gan asesu effeithiau gan gynnwys effeithiau cronnol ac anuniongyrchol a gwneud gwaith monitro mewn ffordd gyfannol. Ar y cyfan, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn hwyluso golwg fwy cytbwys o'r goblygiadau cynaliadwyedd a'r cyfleoedd sy'n deillio o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae Ffigur 1-1 yn cynnig trosolwg o'r asesiadau effaith a integreiddiwyd i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn.


*Ffigur 1-1 Asesiadau effaith i'w hintegreiddio ochr yn ochr â'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'u statws*



2.3.11 Mae canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth y DU[3] (gweler hefyd Adran 2 yr Adroddiad hwn) yn cyflwyno cyfres o gamau rhagnodedig ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mabwysiadir yr un camau hyn ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn, er bod y cwmpas yn ehangach na materion amgylcheddol. Serch hynny, mae'n rhaid bodloni egwyddorion a gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn nodi ac yn esbonio gofynion penodol y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol y mae angen eu bodloni.

2.3.12 Mae Ffigur 1-2 yn dangos prif gamau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel y mae'n cyd-fynd â phroses ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Darperir esboniad mwy manwl yn Adran 2 yr Adroddiad Cwmpasu hwn:

*Ffigur 1-2 Amlinelliad o Broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*




## 2.3.13 Beth yw cam Adroddiad Cwmpasu y broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

2.3.14 Yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw cam cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n nodi'r cwmpas ar gyfer gweddill y broses. Mae'n ddull wedi'i integreiddio a luniwyd trwy ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid ac mae'n dilyn y dull a nodir yn y canllawiau cyhoeddedig[4] gyda'r nod o:

- Bennu cwmpas a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig;
- Nodi cynlluniau, polisïau, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn hysbysu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;

[3] https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance

[4] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005) *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive Practical guidance on applying European Directive 2001/42/EC "on the assessment of the effects of certain plans and programmes on the environment"*

- Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol presennol yng Nghymru ar raddfa genedlaethol o berthnasedd i drafnidiaeth;
- Nodi problemau a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
- Chyflwyno fframwaith arfarnu ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, y gellir arfarnu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ei erbyn.

## 2.4 Beth yw'r berthynas rhwng Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

2.4.1 Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw strategaeth drafnidiaeth 25 mlynedd genedlaethol Llywodraeth Cymru. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r broses y bydd y Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei datblygu drwyddi. Mae gwneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses ac yn integreiddio amrywiaeth o asesiadau yn offeryn asesu syml a chynhwysfawr.

2.4.2 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2015, yw rhoi Cymru yn syth ar lwybr cynaliadwy i wella ein llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy a ddiffinnir fel:

**Mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.**

2.4.3 Yn hytrach na diben ynddo'i hun, ffordd o wneud pethau yw datblygu cynaliadwy ac mae'r Ddeddf yn llywio sut y dylai cyrff cyhoeddus weithredu i'w gyflawni. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer pwrpas a rennir drwy'r saith nod llesiant i Gymru. Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn oddi wrth ei gilydd ac maent yn esbonio'r hyn a olygir gan lesiant Cymru (gweler Tabl1-1).

2.4.4 Mae datblygu cynaliadwy yn broses sydd hefyd yn cyfrannu at wella llesiant. Mae'n cydnabod bod llawer o bethau sy'n penderfynu ar ansawdd bywyd rhywun (ei lesiant), ac y gellir categoreiddio'r rhain yn eang fel ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Nodir y rhain yn y nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y gall gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant wella llesiant unigolion a llesiant Cymru yn ei chyfanrwydd.

*Tabl 1-1 Diffiniad o Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus.** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth.** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach.** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal.** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus.** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion*[5]

### 2.4.5 Pwysigrwydd Integreiddio'r Saith Nod Llesiant yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

2.4.6 Bydd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru swyddogaeth bwysig o ran cyfrannu at fodloni nodau llesiant dros y cyfnod o 20 mlynedd, a bydd y dull arfarnu yn helpu

[5] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf

Llywodraeth Cymru i ddeall lle gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sicrhau bod y cyfraniad hwnnw mor fawr â phosibl. Mae'r nodau llesiant wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Cwmpasu a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Adran 5.2). Defnyddiwyd y nodau llesiant hefyd i hysbysu'r adolygiad o'r dystiolaeth, i nodi problemau ac i strwythuro Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.


### 2.4.7 Dulliau o Weithio

2.4.8 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir gan y Ddeddf yn rhan sylfaenol o sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – weithredu bellach. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy gymryd yr egwyddor datblygu cynaliadwy i ystyriaeth.

2.4.9 Mae'r egwyddor wedi ei chyfansoddi o bum dull o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu cymryd i ystyriaeth wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Dyma nhw:

- Edrych i'r **hirdymor** fel nad yw Llywodraeth Cymru yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Mabwysiadu dull **integreiddio** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- **Cydweithio** ag eraill i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau i'w **hatal** rhag digwydd.

*Ffigur 1-3 Y Nodau Llesiant a'r Pum Dull o Weithio*

| Nodau Llesiant | Dulliau o Weithio | |
|---|---|---|
|  |  | **Hirdymor** |
| |  | **Integreiddio** |
| |  | **Cydweithio** |
| |  | **Cynnwys** |
| |  | **Atal** |

*Ffynhonnell: addaswyd o: Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion*[6]

## 2.4.10 Y Dulliau o Weithio a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

2.4.11 Mae'r pum dull o weithio yn rhan annatod o'r broses o baratoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac felly trwy gysylltiad, yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Yn ystod y gwaith y mae Arcadis a Llywodraeth Cymru wedi ei wneud, rydym wedi ystyried sut y mae'r dulliau o weithio yn llunio'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae Tabl 1-2 yn cynnig trosolwg o'n dull.

*Tabl 1-2: Y pum dull o weithio a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru/yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*

| Edrych i'r hirdymor |
|---|
| ***Datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*** |
| I sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei datblygu i gynnig gweledigaeth 25 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Yn bwysig, bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd yn cynorthwyo syniadau y tu hwnt i 2040 lle bynnag y bo'n bosibl, yn gwneud defnydd o dystiolaeth a thueddiadau ac yn ceisio deall canlyniadau dros yr amserlenni hiraf sydd ar gael. Er bod polisïau mwy byrdymor o ddiddordeb i'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac y gallent hysbysu ei dull mewn rhai meysydd, mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cefnogi dull nad yw wedi ei gyfyngu gan anghenion byrdymor yn unig yn y pen draw. |
| ***Swyddogaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*** |
| Swyddogaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw cynorthwyo gwaith llunio polisi yn yr hirdymor yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'n nodi ac yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni llinell sylfaen, a'r broses o nodi problemau a chyfleoedd yn manteisio ar gorff manwl o dystiolaeth sy'n ystyried y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd y fframwaith profi yn profi polisïau sy'n dod i'r amlwg a'u gallu i gyflawni'r amcanion hirdymor. Bydd yr opsiynau a fydd yn cael eu datblygu a'u profi drwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ystyried yn benodol y ddarpariaeth o newid strategol hirdymor. Mae Atodiad B yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cyflwyno'r dystiolaeth llinell sylfaen sy'n edrych ar dueddiadau byrdymor, tymor canolog a hirdymor. Mae Adran 4, er enghraifft, yn dangos y tueddiadau hirdymor yn ymwneud ag amcanestyniadau poblogaeth. Mae hyn yn cyfrannu at y broses o nodi materion allweddol a chyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt ac yn llunio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. |
| **Mabwysiadu dull integredig** |
| ***Datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*** |
| Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu strategaeth genedlaethol sy'n cynnwys materion trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gyson â darpariaeth polisïau Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb, y |

[6] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf

| |
|---|
| Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ac yn cefnogi'r polisïau hyn. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith strategol y bydd angen gwneud penderfyniadau am opsiynau buddsoddi yn y dyfodol yn unol ag ef. Ni fydd yn nodi nac yn cyflwyno prosiectau, cynlluniau, mentrau neu ymyriadau penodol, a fydd yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol manwl 5 mlynedd a Chydgynlluniau Trafnidiaeth Lleol.<br>Bydd ei pholisïau yn cael eu hintegreiddio, gan sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant, ac yn cael eu datblygu trwy broses asesu fanwl gan gynnwys tystiolaeth. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ddull y byddwn yn ei ddilyn i brofi'r integreiddiad hwn a sicrhau bod y cyfraniad at fodloni'r nodau llesiant mor fawr â phosibl. |
| ***Swyddogaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*** |
| Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r dull integredig o ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac asesu ei pholisïau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n sicrhau y dilynir dull cyfannol, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd pwnc ac felly'r nodau. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol perthnasol ar raddfa genedlaethol i ryngwladol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar synergeddau posibl, i nodi cyfleoedd ac i ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, cynhaliwyd asesiad cydweddoldeb o'r Fframwaith asesu hefyd i sicrhau bod unrhyw achosion wrthdaro yn cael eu hamlygu, eu datrys neu eu rheoli fel sy'n angenrheidiol.<br>Sicrhaodd yr ymgynghoriad a'r gweithdy Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ategol gyda rhanddeiliaid allweddol y casglwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar yr Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft gan gynnwys y Fframwaith a'r dull integredig arfaethedig drafft. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod synergeddau ac achosion o wrthdaro yn cael eu nodi yn gynnar, gan sicrhau dull cadarn o gynnal yr asesiad.<br>Mae dull trawslywodraethol yn cael ei ddilyn trwy sefydlu Gweithgor Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae hwn yn cynnwys arweinwyr polisi arbenigol yn cwmpasu datgarboneiddio, trafnidiaeth, cynllunio morol, adnoddau naturiol, cadwraeth natur, tueddiadau'r dyfodol ac ystadegau. Sefydlwyd y Gweithgor i ategu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig trwy gydol datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.<br>Bwriedir y bydd dull cydweithredol yn esblygu trwy gydol y broses i lenwi bylchau data, i wneud gwaith monitro ac i gynyddu ymgysylltiad â grwpiau fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **Cynnwys pobl** |
| ***Datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*** |
| Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn natblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.<br>Bydd ymgysylltu ar y strategaeth ddrafft yn digwydd fel a ganlyn:<br>- mewnbwn rhanddeiliaid i'r strategaeth ddrafft, gan gynnwys ymgynghori mewnol ac allanol gyda rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â swyddfeydd y Comisiynwyr.<br>- ymgynghori ac ymgysylltu ar ddogfen y strategaeth ddrafft.<br>- cofnodi allbynnau o'r ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid. |

- dadansoddi adborth a llunio adroddiad ymgynghori.
- mewnbwn rhanddeiliaid i fireinio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Amcanion yr ymgysylltu yw:

1. Gwneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, blaenoriaethau a chanlyniadau a cheisio safbwyntiau arnynt.
2. Sicrhau bod gan y cyhoedd a rhanddeiliaid gyfle i wneud sylwadau ar gynigion ar gyfer newid, fel y gellir defnyddio adborth i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau.
3. Gwneud yn siŵr bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r cyhoedd gymryd rhan.
4. Sicrhau lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bâm mae newidiadau yn cael eu cynnig.

***Swyddogaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig***

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnig cyfle pwysig i bobl gymryd rhan yn y gwaith o lunio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wrth iddi ddatblygu. Mae'n broses sy'n adrodd hanes y cynllun gan gynorthwyo dealltwriaeth o'i datblygiad. Bydd camau gwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn y dyfodol yn cynnwys gwahanol sefydliadau ac unigolion i sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau yn parhau i gael eu casglu ac yn cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori gwaith i hybu a diogelu'r iaith Gymraeg.

## Cydweithio ag eraill

***Datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru***

Ni fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar ei phen ei hun yn gallu mynd i'r afael â'r heriau trafnidiaeth allweddol. Ei swyddogaeth yw cyflwyno ein blaenoriaethau strategol a'n canlyniadau dymunol trwy ddarparu cyswllt i flaenoriaethau ehangach yn ogystal â chynlluniau ar lefel awdurdod lleol, yn ogystal â rhai rhanddeiliaid trafnidiaeth eraill. Ei swyddogaeth yw nodi'r hyn y gall ei wneud yn uniongyrchol ac ar y cyd ag eraill. Ceir y cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hwyluso camau gan bobl eraill ac i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i gynorthwyo'r ddarpariaeth o nodau cyffredin, i sicrhau cymaint â phosibl o ganlyniadau cadarnhaol ac i helpu i gyflawni'r nodau llesiant.

Yn bwysig, mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddiddordeb mewn cefnogi darpariaeth ar bob lefel drwy'r system gynllunio. Yn ogystal â phrosiectau mawr ac untro, bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ceisio hwyluso darpariaeth prosiectau llai lluosog, a all helpu ar y cyd i gyflawni newid dros yr hirdymor.

Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddiddordeb mewn gweithio gyda phawb. Bydd ganddi ran i'w chwarae yn cydgysylltu'r ddarpariaeth o fuddsoddiad a strategaethau ar draws Llywodraeth; bydd yn gweithio gyda llunwyr cynlluniau rhanbarthol a lleol; busnesau; rhanddeiliaid; ac amrywiaeth eang o fuddiannau.

***Swyddogaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig***

Trwy adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol (Atodiad A), tystiolaeth llinell sylfaen (Atodiad B), bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn helpu i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol ac yn nodi cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Tabl 4-1); ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori, diweddarwyd a diwygiwyd y cynlluniau a'r rhaglenni ac ati. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y bydd polisïau a chynigion

| |
|---|
| Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael eu profi yn ei erbyn ac a fydd yn helpu i sicrhau cymaint o gyfleoedd cydweithredu â phosibl ac yn sicrhau bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru mor gynaliadwy â phosibl. |
| **Atal** |
| **Datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** |
| Mae'r strategaeth drafnidiaeth yn un o ysgogiadau'r llywodraeth i nodi canlyniadau yn y dyfodol a mesurau i fonitro llwyddiant. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi gweledigaeth strategol hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth wedi'i hategu gan gyfres o ganlyniadau i wireddu'r weledigaeth honno, yn ogystal â mesurau fel y gellir olrhain cynnydd. Bydd hyn yn rhoi sail eglur ar gyfer cynllunio buddsoddiad a datblygiad y rhwydwaith yn y ffordd sy'n gweddu orau i gyflawni blaenoriaethau cyfunol, yn ogystal ag atal problemau trafnidiaeth yn y dyfodol ac effeithiau trafnidiaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd yn darparu ar gyfer diogelwch ac amddiffyn grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yng Nghymru.<br><br>Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn destun rhaglen o fonitro ac adolygu, i ddarganfod ei chynnydd tuag at gyflawni ei chanlyniadau. |
| **Swyddogaeth Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** |
| Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n bwydo drwy'r Adroddiad Cwmpasu ac yn llunio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Nododd yr adolygiad o'r dystiolaeth hon faterion allweddol a chyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt a sicrhau bod y Strategaeth yn atal canlyniadau negyddol ac yn gwella canlyniadau cadarnhaol pan fo'n bosibl (Tabl 4-1). Bydd nodi'r materion a'r tueddiadau hyn ar y cam cynnar hwn yn helpu datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru trwy lunio amcanion a chwestiynau Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn sicrhau y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei monitro i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus ac yn cyflawni ei hamcanion. Bydd unrhyw broblemau a amlygir yn cyfrannu at yr adolygiad o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. |

## 2.5 Sut mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cysylltu â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru?

2.5.1 Yn ogystal â chefnogi darpariaeth y nodau llesiant, bydd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru swyddogaeth bwysig o ran cefnogi'r ddarpariaeth o bolisi Llywodraeth allweddol gan gynnwys amrywiaeth eang o bolisïau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys 'Symud Cymru Ymlaen', 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol', 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel', 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur', 'Cynllun Gweithredu ar yr Economi' a 'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol' (a fydd yn cael ei ailenwi yn 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn fuan) a'r Argyfwng Hinsawdd, a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019.

2.5.2 Cynllun pum mlynedd yw Symud Cymru Ymlaen i ddarparu mwy o swyddi a swyddi gwell trwy economi gryfach a thecach, i wella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, ac i greu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi sut y bydd y sefydliad yn gweithio'n wahanol ar draws ffiniau traddodiadol i gyflawni blaenoriaethau. Mae Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol yn cymryd yr

ymrwymiadau o Symud Cymru Ymlaen ac yn eu rhoi mewn cyd-destun hirdymor; ac yn nodi sut y byddant yn cael eu cyflawni trwy ddod ag ymdrechion sector cyhoeddus cyfan Cymru ynghyd. Mae'r pedair thema allweddol yn y strategaeth yn adlewyrchu'r rhai yn Symud Cymru Ymlaen. Dyma nhw:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egnïol
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig

2.5.3 Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod meysydd y daeth i'r amlwg bod ganddynt y cyfraniad posibl mwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor. Mae'n rhoi pwyslais arbennig ar y pum maes blaenoriaeth hyn lle credir y gellir cael yr effaith gychwynnol fwyaf trwy wella sut y darperir gwasanaethau, gan baratoi'r llwybr ar gyfer camau pellach dros y tymor hwy. Dyma'r chwe maes blaenoriaeth:

- Blynyddoedd Cynnar
- Tai
- Gofal Cymdeithasol
- Iechyd Meddwl
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Datgarboneiddio

2.5.4 Mae'r strategaeth yn cynrychioli ffordd newydd o weithio, un sy'n cydnabod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu heddiw, y Gymru yr ydym ei heisiau ar gyfer y dyfodol a'r camau y mae angen eu cymryd i wireddu hynny.

2.5.5 Bydd Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr yn llywio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ei nod o hybu a diogelu'r Gymraeg.

2.5.6 Caiff dogfennau allweddol eraill a adolygwyd eu crynhoi yn Atodiad A ac Adran 3 yr adroddiad hwn.

## 2.6 A fydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal?

2.6.1 Mae Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor Ewropeaidd ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd') yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), ymgeisydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (yACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), darpar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (dAGA) a safleoedd Ramsar), nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle at ddibenion cadwraeth natur, fod yn destun Asesiad Priodol. Troswyd y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd[7]. Cyfeirir at y broses gyffredin fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

2.6.2 Yn dilyn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru, bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn destun proses Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd canlyniad y

[7] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (OS 2010/490)

broses hon yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a’r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn.

## 2.7 Pa ymgynghori a wnaed ar yr Adroddiad Cwmpasu?

2.7.1 Yr Adroddiad Cwmpasu Drafft ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru oedd un o’r camau ymgysylltu a chydweithio cyntaf ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Roedd yr ymgyngoreion yn cynnwys yr ymgyngoreion statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw. Cynhaliwyd gweithdy yn cynnwys gweithgor Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o fewn Llywodraeth Cymru hefyd. Gwnaeth yr ymgynghoriad bara 12 wythnos a daeth i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2020.

# 3 Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

## 3.1 Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

3.1.1 Mae'r Canllaw Ymarferol ar y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ymrannu proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gyfres o gamau. Adlewyrchir y camau hyn yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol i sicrhau bod pob un o'r asesiadau integredig yn cael eu hymgorffori. Y bwriad yw i'r broses fod yn ailadroddol. Mae Ffigur 2-1 yn cyflwyno camau allweddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ochr yn ochr â chamau datblygu allweddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a pha asesiadau fydd yn cael eu hintegreiddio yn rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. I grynhoi, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys y broses ganlynol:

### Cam A: Pennu'r Cyd-destun ac Amcanion, Sefydlu'r Llinell Sylfaen a Phenderfynu ar Gwmpas (Y Cam Hwn)

3.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig crynodeb o gam Cwmpasu proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r cam hwn yn darparu'r sail ar gyfer cymryd camau canlynol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill a datblygu amcanion amgylcheddol, gan gynnwys polisïau a chynlluniau cenedlaethol a haen uwch eraill yn sefydlu'r cyd-destun ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. I ragweld yn gywir sut y gallai cynigion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru effeithio ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, mae'n bwysig deall cyflwr presennol y ffactorau hyn ac yna archwilio eu hesblygiad tebygol heb weithrediad y Strategaeth. Dadansoddir y llinell sylfaen hon wedyn i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol a fydd yn hysbysu'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a chyfleoedd y gallai'r Strategaeth ddylanwadu arnynt. Yn dilyn ymlaen o hyn, bydd Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei sefydlu, i benderfynu ar gyfres o amcanion a chwestiynau allweddol i'w defnyddio i asesu'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd hon a sut y gallai wella'r ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hyn, o fewn cyd-destun y nodau llesiant.

3.1.3 Mae'r broses ymgynghori yn helpu i fireinio'r gwaith hwn fel bod gennym Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n effeithiol i arfarnu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

### Camau B1 a B2: Datblygu a mireinio dewisiadau amgen ac asesu effeithiau (Y Cam Nesaf)

3.1.4 Yn dilyn yr Ymgynghoriad Cwmpasu, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn symud i Gam B a fydd yn cynnwys arfarniad lefel uchel o ddrafft cychwynnol o bolisïau a chynigion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn erbyn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sefydledig. Bydd yr asesiad yn caniatáu i bolisïau a chynigion drafft Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael eu hasesu yn gynnar, gan nodi unrhyw opsiynau posibl. Gellir gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau neu ddewisiadau amgen, fel sy'n briodol. Bydd hyn yn hysbysu datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i fwrw ymlaen ag ef a'i fireinio.

### Camau B3, B4, B5 a B6: Rhagweld a gwerthuso effeithiau'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ddrafft, gan gynnwys dewisiadau amgen

3.1.5 Ar ôl datblygu polisïau a chynigion diwygiedig Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y cam hwn o'r asesiad yw gwerthuso'r effeithiau sylweddol a ragwelir. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys gwneud dyfarniad ar ba un a fyddai'r effeithiau a ragwelir yn arwyddocaol yn amgylcheddol ai peidio. Mae Camau B5 a B6 yn rhan annatod o'r broses hon ac yn cynnwys yr argymhellion ar gyfer gwelliant i ganlyniadau a monitro posibl effeithiau sylweddol a ragwelir (gweler Cam E).

## Camau C a D: Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft ac Ymgynghoriad


3.1.6 Bydd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Drafft yn cael ei gyhoeddi (Cam C) i ategu ymgynghoriad y Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ddrafft (Cam D).

3.1.7 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ddrafft, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei ddiweddaru eto i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o ganlyniad i'r ymgynghoriad (parhad Cam D). Bydd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Terfynol yn cael ei lunio wedyn i ategu'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Derfynol.

## Cam E: Monitro Effeithiau Sylweddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

3.1.8 Mae Cam E proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys cwblhau fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddefnyddio i nodi materion, cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau sylweddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru dros amser. Ar ôl mabwysiadu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gellir paratoi Datganiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ôl-fabwysiadu, ochr yn ochr â Datganiad o Fanylion Amgylcheddol, yn cynnig manylion sut y mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yr effeithiau sylweddol a ragwelir, yn ogystal â'r fframwaith monitro.

*Ffigur 2-1: Camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (addaswyd o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2005)*



## 3.2 Dull integredig o asesu effeithiau

3.2.1 Mae Adran 1 yr adroddiad hwn yn nodi y bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn integreiddio cyfres o asesiadau effaith, yn ogystal ag Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nodir manylion y dull o gynnal asesiadau effaith yn adran 5.1.1; mae hwn yn cydnabod y penderfynyddion ehangach sy'n gorgyffwrdd rhwng y gwahanol asesiadau effaith ac yn caniatáu i olwg gyfannol gael ei chymryd. Mae rhai o'r asesiadau effaith yn asesiadau effaith statudol ac mae rhai'n ofynnol o dan y gyfraith gan Lywodraeth Cymru, fel y disgrifir isod.

3.2.2 Mae'n bwysig nodi y cydnabyddir natur drawsbynciol a gorgyffyrddol yr asesiadau effaith. Bydd natur yr asesiadau yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ceisio sicrhau bod pynciau yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn y pen draw, gan osgoi ailadrodd ar draws gwahanol bynciau cymaint ag y bo'n ymarferol, heb roi mwy o 'bwys' i unrhyw faes pwnc dros un arall.

3.2.3 Asesiadau Effaith Statudol

3.2.4 Mae'r asesiadau effaith canlynol yn ofyniad statudol.

3.2.5 ***Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*** - O dan y ddyletswydd gydraddoldeb (a nodir yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010), mae'n rhaid i lawer o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon yn ogystal â hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Mae hyn yn cynnwys hil, rhywioldeb, rhywedd ac anableddau.

3.2.6 ***Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg*** – Mae Mesur a Safonau'r Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r effeithiau canlynol gael eu hystyried:

- Pa effaith, os o gwbl, fyddai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ei chael ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg;
- Sut y gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg; a
- Sut y gellid datblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru fel nad yw'n cael neu'n lleihau unrhyw effeithiau niweidiol y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

3.2.7 ***Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant*** – Y ddyletswydd a gyflwynwyd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn ddull sy'n helpu i ddangos sut y mae Gweinidogion Cymru yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol.

### 3.2.8 Asesiadau sy'n Ofynnol gan Lywodraeth Cymru

3.2.9 Mae'r asesiadau effaith canlynol yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod polisïau a chynlluniau wedi cael eu hasesu ar gyfer eu heffaith a'u bod yn cael eu datblygu o'r camau cynharaf gyda'r nod i sicrhau cymaint â phosibl o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol - nid yn unig nawr, ond ar gyfer yr hirdymor. Byddant yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gydlyniad a mentrau eraill ac yn destun ymgysylltu â'r bobl a'r sefydliadau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf ganddynt.

- Iechyd;
- Prawfesur Gwledig;
- Newid yn yr Hinsawdd; a
- Datblygu Economaidd.

3.2.10 Mae pob un o’r asesiadau effaith a nodir uchod wedi cael eu sgrinio i ddarganfod yr effaith bosibl y gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ei chael. Ar hyn o bryd, mae’r holl asesiadau effaith wedi cael eu sgrinio i mewn a’u hintegreiddio yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Nodir crynodeb o’r canfyddiadau yn Nhabl 2-1. Bydd y gwaith asesu hwn yn cael ei wneud yn rhan o’r broses ailadroddol ac yn cael ei gadw’n gyfredol i adlewyrchu agweddau fel manylion newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru; tystiolaeth bellach neu wedi’i diweddaru; ac ymatebion ymgynghori.

*Tabl 2-1 Crynodeb o Waith Sgrinio Asesiadau Effaith*

| Asesiad Effaith | Crynodeb o’r Canlyniadau Sgrinio |
|---|---|
| Iechyd | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i’r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar iechyd a llesiant. Bydd yr asesiad o iechyd yn seiliedig ar y dull eang, cyfranogol a chynhwysol a hyrwyddir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn ‘Asesu’r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol’ (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, 2012) a bydd yn defnyddio penderfynyddion ehangach iechyd gan gynnwys llesiant fel fframwaith ar gyfer trafodaeth. Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (a fydd yn cael ei ddefnyddio i arfarnu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru) yn cwmpasu amcanion iechyd a llesiant sy’n adlewyrchu dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| Cydraddoldeb | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i’r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Sgriniwyd y nawr grŵp nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a sgriniwyd y grwpiau canlynol i mewn ar gyfer ystyriaeth bellach yn y broses asesu: hil, oedran, anabledd a rhyw (rhywedd). Bydd y nodweddion gwarchodedig hyn yn cael eu cynnwys yn yr amcanion a’r cwestiynau yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ystyrir bod rhywedd yn ystyriaeth gyffredin i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae’r holl nodweddion gwarchodedig wedi’u cwmpasu i mewn i’r asesiad. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd hyn yn cael ei adolygu yn rhan o’r broses asesu, gan na ragwelir y bydd effeithiau ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd. Mae tîm Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn datblygu cynllun ymgysylltu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a fydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd. |
| Y Gymraeg | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i’r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar y Gymraeg. Mae amcanion sy’n cwmpasu’r Gymraeg wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig felly. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol yn cael eu hystyried a’u nodi lle bynnag y bo’n bosibl drwy’r gwaith hwn. |

| Asesiad Effaith | Crynodeb o'r Canlyniadau Sgrinio |
|---|---|
| Prawfesur Gwledig | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar gymunedau gwledig. Felly, mae amcanion sy'n cwmpasu agweddau ar fywyd gwledig fel mynediad at wasanaethau; a'r economi wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. |
| Hawliau Plant | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar hawliau plant. Adolygwyd yr Erthyglau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a nodwyd mai'r erthyglau canlynol yw'r mwyaf perthnasol ar y cam hwn - 6, 12, 23, 24, 27, 28, 31, a 36[8]. Ar gyfer yr Erthyglau hyn a'r argymhellion a wnaed yn 2016 gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcanion sy'n cwmpasu'r meysydd hyn. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed yn natblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar y newid yn yr hinsawdd, trwy allyriadau cerbydau a charbon corfforedig wrth adeiladu seilwaith trafnidiaeth a cherbydau. Mae amcanion sy'n cwmpasu'r newid yn yr hinsawdd wedi eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i sicrhau bod achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried a'u nodi lle y bo'n bosibl drwy'r gwaith hwn.<br>Bydd y newid yn yr hinsawdd hefyd yn debygol o gael effaith ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd diweddaraf y DU yn nodi sawl risg i drafnidiaeth o'r newid yn yr hinsawdd. |
| Datblygu Economaidd | Ar y cam cynnar hwn, daethpwyd i'r casgliad y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael effaith bosibl ar yr economi. Mae amcanion economaidd wedi eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i sicrhau bod problemau a chyfleoedd yn cael eu hystyried a'u nodi lle y bo'n bosibl drwy'r gwaith hwn. |

### 3.2.11 Y Trydydd Sector

3.2.12 Bydd yr effeithiau ar y Trydydd Sector yn cael eu hasesu yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hybu'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am y cyfraniad y mae'r sector yn ei wneud at lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, ei phobl a'i chymunedau. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau sylweddol wrth i alw a disgwyliadau gynyddu a phwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau ataliol a chymunedol yn bwysicach nag erioed. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall y Trydydd Sector helpu i weddnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni gofynion y presennol a'r dyfodol, trwy drin pobl a chymunedau fel asedau a chydraddolion wrth ddylunio a darparu

[8] https://llyw.cymru/hawliau-plant

gwasanaethau, nid yn unig fel derbynwyr gwasanaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cefnogi gwaith y trydydd sector ac mae’n deall y cysylltiadau cryf a’r arbenigedd sydd gan sefydliadau trydydd sector mewn cymunedau, yn enwedig o ran trafnidiaeth gymunedol.

# 4 Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Amgylcheddol Perthnasol (A1)

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei dylanwadu mewn ffyrdd amrywiol gan gynlluniau neu raglenni eraill, neu gan amcanion diogelu amgylcheddol (neu gynaliadwyedd) allanol fel y rhai a nodir mewn polisïau neu ddeddfwriaeth. Gall deall y cysylltiadau hyn ganiatáu i Lywodraeth Cymru fanteisio ar synergeddau posibl, i nodi cyfleoedd ac i ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Adolygwyd nifer fawr o gynlluniau a rhaglenni eraill o ran materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol perthnasol o bwysigrwydd i bob un o'r ffrydiau asesu integredig.

4.1.2 Mae'n bwysig cofio bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ddogfen graddfa genedlaethol felly bydd y cynlluniau a rhaglenni eraill sy'n berthnasol yn ddogfennau graddfa genedlaethol, DU neu ryngwladol yn bennaf. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn ei thro, yn ceisio dylanwadu ar gynllunio lefel is-genedlaethol yng Nghymru. Mae'r dogfennau cenedlaethol canlynol o bwysigrwydd arbennig a bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gweithio â nhw ac yn rhannu nodau ac amcanion cyffredin:

- Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru newydd;
- Symud Cymru Ymlaen 2016-2021;
- Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol;
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel
- Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd
- Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 10;
- Llywodraeth Cymru (2020): Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru[9];
- Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, yn ymgorffori egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur; a'r
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[10].

4.1.3 Bydd natur ailadroddol y gwaith hwn yn sicrhau y gall ac y bydd cynlluniau polisïau a rhaglenni newydd a gyhoeddir wrth i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddatblygu yn cael eu cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru newydd (a fydd yn cael ei ailenwi yn "Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040").

4.1.4 Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gynlluniau a rhaglenni perthnasol gael eu hystyried. Mae Blwch 2 yn nodi gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer y cam hwn o'r broses.

*Blwch 2: Gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd*

> *amlinelliad o gynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a pherthynas â'r holl gynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill (Atodiad 1 (a)).*
>
> *yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, Cymuned neu Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ei baratoi (Atodiad 1 (e))*

4.1.5 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill a allai effeithio ar baratoad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru er mwyn cyfrannu at ddatblygiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y cyflwynir ei ganlyniadau llawn yn Atodiad A. Roedd hyn yn cynnwys:

- Nodi unrhyw amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu economaidd y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Nodi unrhyw ddata llinell sylfaen sy’n berthnasol i’r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.
- Nodi unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar baratoad y ddogfen, er enghraifft materion cynaliadwyedd.
- Nodi unrhyw amcanion neu nodau a fyddai’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- Penderfynu a oes gwrthdrawiadau neu heriau eglur posibl rhwng cynlluniau, rhaglenni neu amcanion eraill a nodwyd a’r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd.

4.1.6 Roedd yr adolygiad yn cynnwys dogfennau a baratowyd ar raddfa ryngwladol, DU gyfan a chenedlaethol. Ceir crynodeb byr o’r dogfennau a adolygwyd a’r prif ganfyddiadau yn Nhabl 3-1 ac Adran 3.2. Cyflwynir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

*Tabl 3-1 Crynodeb o’r mathau o ddogfennau a adolygwyd. Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A.*

| Lefel | Crynodeb |
|---|---|
| Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol ac Ewropeaidd | Cynhaliwyd adolygiad o Gonfensiynau Rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol a allai ddylanwadu ar ddatblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a’r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Caiff Cyfarwyddebau Ewropeaidd eu trosi i ddeddfwriaeth genedlaethol ym mhob Aelod-wladwriaeth unigol ac, felly, dylai fod effaith ddiferu o’r egwyddorion allweddol a chymhwysiad i’r dogfennau cynllunio cenedlaethol perthnasol. |
| Cynlluniau a Rhaglenni DU Gyfan | Cynhaliwyd adolygiad hefyd o gyhoeddiadau perthnasol gan sefydliadau sy’n cynnwys, er enghraifft, yr Adran Drafnidiaeth, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae’r cyhoeddiadau hyn yn amlinellu’r cynlluniau gweithredu a’r strategaethau ar draws ystod o feysydd pwnc, er enghraifft y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol y DU yn ogystal â dogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report* y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (2017) (yn enwedig y Grynodeb i Gymru). Mae angen cymryd amcanion y cynlluniau hyn, yn ogystal â rhai o’r heriau y maent yn eu codi i ystyriaeth fel sy’n briodol. |
| Cynlluniau a Rhaglenni Cymru | Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a luniwyd ar lefel genedlaethol Cymru. Caiff llawer o’r rhain eu llunio gan Lywodraeth Cymru ac maent yn rhoi sylw penodol i faterion strategol fel yr economi; trafnidiaeth; iechyd; diogelwch; cymunedau cynaliadwy; tai; cyflogaeth; y Gymraeg; a diogelwch amgylcheddol.<br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) yn nodi saith nod llesiant i Gymru. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant cychwynnol, y bwriedir iddynt sicrhau bod ei |

| Lefel | Crynodeb |
|---|---|
| | chyfraniad at y saith nod llesiant mor fawr â phosibl. Mae cyrff cyhoeddus penodedig eraill hefyd wedi cyflwyno eu hamcanion llesiant ar gyfer cyfrannu at y nodau llesiant.<br>• Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol o 2016, ynghyd â'r Polisi Adnoddau Naturiol wedi eu cynnwys hefyd. Mae gan y ddau bwyslais ar adnoddau naturiol Cymru, ac mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cynnig asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ceisio cyflwyno'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r dogfennau hyn, yn arbennig, yn ddogfennau cenedlaethol allweddol y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn eu defnyddio. Maent yn cynnwys nodau cyffredin a rhennir amrywiaeth o dystiolaeth rhyngddynt. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys prif ddylanwadau cynlluniau lefel ryngwladol a'r DU gyfan drwy'r 'effaith ddiferu'. Dylent hefyd gynnig pwyslais strategol i Gymru. Trwy nodi'r themâu hyn a'u cynnwys yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y gellir sicrhau synergeddau gyda dogfennau perthnasol eraill. Nodir y cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim yn 2019, sy'n nodi sut y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn datblygu yn 2020.<br>• Mae'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru (2020) yn cyflwyno ymrwymiad i gydnabod y ffyrdd presennol y mae strwythurau grym yn seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oed a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn creu anghydraddoldebau, gwahaniaethu a gorthrwm. Bydd angen i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sicrhau bod trafnidiaeth yng Nghymru yn hwyluso annibyniaeth economaidd pawb gan gynnwys menywod a phobl anneuaidd, gan gydnabod pob math o waith heb dâl a chyda thâl; yn hwyluso rhyddid menywod i fyw eu bywydau fel y maent yn dewis; yn herio unrhyw strwythurau grym presennol a allai fod yn rhoi menywod o dan anfantais; sydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb o ran canlyniadau i bob menyw, dyn a pherson anneuaidd; yn rhoi safbwynt rhywedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau; yn agored, yn dryloyw ac yn croesawu craffu o safbwynt rhywedd; yn monitro yn weithredol cynnydd tuag at gydraddoldeb; ac yn arwain trwy esiampl ar gyfer sicrhau cydraddoldeb.<br>• Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi sut y bydd Cymru yn rhoi sylw i Gynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ar gyfer Bioamrywiaeth a'r targedau bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi camau y gellir eu cymryd yn y byrdymor ac yn nodi trywydd ar gyfer cyflawni ymrwymiadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu hyn yn |

| Lefel | Crynodeb |
|---|---|
| | berthnasol i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac wedi hysbysu Amcanion Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. |

## 4.2 Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad

4.2.1 Nodwyd llawer o themâu cyffredin yn yr adolygiad o gynlluniau a rhaglenni. Er bod canlyniadau llawn yn cael eu cyflwyno yn Atodiad A, mae Tabl 3-2 yn cynnig crynodeb o'r themâu allweddol a nodwyd. Ystyriwyd y themâu hyn hefyd yn erbyn y saith nod llesiant a lle gallent wneud cyfraniad at gyflawni'r nodau hynny. Nodir mai themâu yw'r rhain sy'n deillio o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni yn hytrach na'r materion cynaliadwyedd allweddol sy'n deillio o'r adolygiad o wybodaeth sylfaenol.

*Tabl 3-2 Themâu Allweddol sy'n Deillio o'r Adolygiad o gynlluniau a rhaglenni*

| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Cenedlaethol<br>(lle gallai'r themâu wneud cyfraniad) |
|---|---|
| Lleihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau i ansawdd aer gan gyfrannu at Gymru iachach | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Hybu patrymau cynaliadwy o symudedd, gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Hybu mwy o gyfle cyfartal i bob dinesydd. Dylai hyn gynnwys pwyslais ar sicrhau hygyrchedd cyfartal i bawb, gan gynnwys i bobl anabl ac agored i niwed, yn ogystal â chydraddoldeb i bob menyw, dyn a pherson anneuaidd. | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynnal a gwella bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau ag ecosystemau cydnerth sy'n gweithredu'n iachus, gan gynnwys rhwydweithiau cysylltiedig o seilwaith gwyrdd trwy ardaloedd gwledig a threfol. | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Lleihau'r perygl o lifogydd a/neu erydu arfordirol yn y presennol neu'r dyfodol trwy addasu seilwaith presennol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Cenedlaethol<br><br>(lle gallai'r themâu wneud cyfraniad) |
|---|---|
| hybu'r broses o ddiogelu gorlifdir neu ardaloedd o adlinio a reolir | |
| Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys gostyngiad i allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth yn unol â chyllidebau carbon Cymru | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys: adnoddau dŵr; adnoddau pridd; tirweddau; morluniau; ac asedau hanesyddol a'u lleoliadau | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Rheoli gwaith cloddio am fwynau a sicrhau bod cyn lleied o wastraff a phosibl yn cael ei gynhyrchu a chynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu i reoli gwastraff yn fwy cynaliadwy a lleihau gwastraff tirlenwi | Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Lleddfu pwysau ar adnoddau naturiol trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni, ysgogi buddsoddiad ac arloesedd a hybu'r defnydd cynaliadwy o adnoddau ynni adnewyddadwy cenedlaethol | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd i greu Cymru iachach | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cyfrannu at lesiant y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yn y dyfodol | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Hybu twf economaidd cynaliadwy a chystadleurwydd busnes trwy drafnidiaeth ac arloesi | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal |

| Themâu Allweddol o'r Adolygiad | Nodau Llesiant Cenedlaethol<br><br>(lle gallai'r themâu wneud cyfraniad) |
|---|---|
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Sefydlu economi dwristiaeth gref, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, treftadaeth a hamdden | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Gwella cysylltedd cymunedau presennol a lleihau arwahanrwydd trwy gymunedau sydd wedi'u cynllunio a'u dylunio yn well yn y dyfodol a thrafnidiaeth gyhoeddus fwy cynhwysol | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

# 5 Gwybodaeth Llinell Sylfaen a Nodi Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol (A2 ac A3)

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae gwybodaeth llinell sylfaen (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) yn darparu'r sail ar gyfer rhagweld a monitro effeithiau amgylcheddol ac mae'n helpu i nodi problemau amgylcheddol a ffyrdd eraill o ymdrin â nhw. Gan fod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ddogfen ar raddfa genedlaethol, mae gwaith casglu tystiolaeth llinell sylfaen wedi canolbwyntio ar ddata graddfa genedlaethol gyda rhai data is-genedlaethol pan fo'n briodol.

5.1.2 Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei ystyried yn benodol. Mae'r blwch isod yn nodi gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer y cam hwn o'r broses.

*Blwch 3: Gofynion Asesu Amgylcheddol Strategol ar gyfer llinell sylfaen a nodi materion cynaliadwyedd allweddol*

Mae'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol bod Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cwmpasu:

*agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu raglen a nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol* (Atodlen 2-2 a 2-3)

*unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, fel ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb 79/409/EEC y Cyngor ar gadwraeth adar gwyllt(a) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd* (Atodlen 2-4)

5.1.3 Mae deall nodweddion llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn hanfodol i allu deall effeithiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae disgrifio'r llinell sylfaen, y materion a'r cyd-destun amgylcheddol a chynaliadwyedd yn weithgaredd pwysig i ddiffinio'r Fframwaith ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Disgrifio cyflwr presennol llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- Deall tueddiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a allai effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru; a
- Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi problemau a chyfleoedd presennol a allai gael eu dylanwadu gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

## 5.2 Dull

5.2.1 Disgrifiwyd y llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol drwy'r dulliau canlynol:

- Adolygiad o gynlluniau, strategaethau a rhaglenni rhyngwladol, DU a chenedlaethol (Cymru) perthnasol;
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o setiau data llinell sylfaen a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, canllawiau, argymhellion ymgynghori blaenorol o Arfarniadau o Gynaliadwyedd tebyg a'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru; a
- Dangosyddion Cenedlaethol Cymru[11], sy'n darparu data graddfa genedlaethol ar draws 44 o ddangosyddion o gynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

5.2.2 Cyflwynir canlyniadau llawn hyn yn Atodiad B.

5.2.3 Un ffynhonnell allweddol o wybodaeth yw'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016. Cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim yn 2019, sy'n nodi sut y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn datblygu yn 2020. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys, er enghraifft, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Stats Cymru.

5.2.4 Galluogodd dealltwriaeth o'r amodau sylfaenol i'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru gael eu nodi. Caiff y rhain eu crynhoi yn Adran 4.3 a'u cyflwyno yn llawn yn Atodiad B. Mae Atodiad B hefyd yn cynnwys ffigurau allweddol sy'n dangos Cymru yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys nodweddion allweddol a dynodiadau fel a ganlyn:

- Ffigur 1 Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig;
- Ffigur 2 Nodweddion Tirwedd;
- Ffigur 3 Nodweddion Treftadaeth; a
- Ffigur 4 Rhwydwaith Trafnidiaeth Strategol (heb gynnwys llwybrau teithio llesol).

5.2.5 Rhannwyd y data llinell sylfaen yn ôl saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yna fe'u hymrannwyd fesul pwnc. Ceir llawer o achosion o orgyffwrdd rhwng y setiau llinell sylfaen a'r pynciau. Cynrychiolir pob un o'r pynciau llinell sylfaen a nodir yn y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol.

5.2.6 Mae'r Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 'asedau perthnasol' gael eu hystyried yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae asedau perthnasol yn cyfeirio at y stoc o asedau gwerthfawr mewn ardal astudio a gallant gynnwys llawer o bethau o dirweddau gwerthfawr, treftadaeth naturiol a diwylliannol hyd at seilwaith a thir amaethyddol o ansawdd. At ddibenion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, caiff asedau perthnasol Cymru eu cynnwys yn briodol yn yr adrannau llinell sylfaen canlynol, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn eu pwnc dynodedig eu hunain:

- Bioamrywiaeth, fflora, ffawna a geoamrywiaeth;
- Ansawdd pridd a thir;
- Treftadaeth ddiwylliannol;
- Tirwedd;
- Mwynau a gwastraff;
- Tai; a

[11] https://llyw.cymru/plant-theuluoedd

- Chludiant.

5.2.7 Mae’n bwysig nodi bod data llinell sylfaen, problemau a chyfleoedd ar gyfer pob un o’r ffrydiau asesu integredig wedi cael eu casglu a’u cynnwys yn rhan o’r broses hon ac fe’u cyflwynir o dan y nodau llesiant perthnasol.

## 5.3 Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol

5.3.1 Mae Tabl 4-1 yn cyflwyno’r materion a’r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol i Gymru a nodwyd ar draws y saith nod llesiant ac is-benawdau pwnc yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy’n deillio o’r data llinell sylfaen (Atodiad B). Bydd y rhain yn cael eu mireinio a’u diweddaru ochr yn ochr â’r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd pan fydd rhagor o fanylion am gynnwys y Strategaeth yn hysbys.

5.3.2 Gall effeithiau amgylcheddol o gynlluniau trafnidiaeth, pa un a ydynt yn fuddiol a/neu’n niweidiol, ddeillio o wahanol ffynonellau yn ystod y cam adeiladu, o bresenoldeb y seilwaith, ac o’i weithredu/defnyddio. Yn nodweddiadol, caiff effeithiau eu rhannu’n ddau brif gategori:

- Defnydd: yn codi oherwydd newidiadau i draffig (traffig ffyrdd neu reilffyrdd) fel sŵn, llygredd aer a nwyon tŷ gwydr; a
- Seilwaith: yn deillio o bresenoldeb ffisegol seilwaith trafnidiaeth newydd neu wedi ei wella a datblygiad cysylltiedig, fel effeithiau ar ddefnydd tir, tirwedd, bioamrywiaeth, nwyon tŷ gwydr, llygredd aer, treftadaeth a’r amgylchedd dŵr.[12]

**5.3.3 Ystyriaethau cyffredin: Newid yn yr Hinsawdd a Chydnerthedd Ecosystemau[13]**

5.3.4 Mae’r adolygiad o faterion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol wedi ceisio integreiddio, yn ogystal â’r asesiadau effaith yn adran 2.2.2, egwyddorion y newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd ecosystemau drwyddi draw.

5.3.5 Mae’r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015). Mae’r newid yn yr hinsawdd yn ganolog i’r Ddeddf ac yn ganolog i bob un o’r saith Nod Llesiant. Mae’r Nod Cydnerthedd yn tynnu sylw penodol at yr angen i addasu i’r newid yn yr hinsawdd. Dylid cymryd y risgiau cyffredin o’r newid yn yr hinsawdd, fel y’u crynhoir yn y ddogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report - Summary for Wales*, i ystyriaeth yn natblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac, fel y cyfryw, fe’u hadlewyrchir hefyd yn Atodiad B, Tabl 4-1 a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae Atodiad A yn cynnig adolygiad cynhwysfawr o ddogfennau carbon isel y dylid eu cymryd i ystyriaeth.


5.3.6 Mae’r term ‘cydnerthedd’ yn ymwneud ag amrywiaeth eang o faterion, fel y newid yn yr hinsawdd, iechyd, amaethyddiaeth, datblygu cymunedol, rheoli ariannol, a rheoli perygl sychder a llifogydd. Cydnerthedd ecosystem yw gallu ecosystemau i ymdopi ag achosion o darfu, naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer yn eu sgil, neu addasu iddynt, gan gadw eu gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystem nawr ac yn y dyfodol.

[12] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/824186/valuation_of_landscape_impacts_of_transport_interventions.pdf

[13] Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016, ar gael yn: http://naturalresources.wales/media/679405/chapter-4-resilience-final-for-publication.pdf

5.3.7 Fel y profwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016), ceir amrywiaeth o weithgareddau a chyfeiriad gwelliannau a fyddai'n debygol o wella cydnerthedd ecosystemau. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn mabwysiadu dull pragmatig sy'n cydnabod gwahanol nodweddion (y'u gelwir yn 'agweddau' weithiau) fel blociau adeiladau cydnerthedd, yn unol â Ffigur 4.1.

*Ffigur 4-1: Saith nodwedd cydnerthedd, gan gynnwys adfer; ymwrthedd; cyflwr; hyblygrwydd; maint; amrywiaeth a chysylltedd.*




5.3.8 Daw ecosystem gydnerth i'r amlwg dim ond o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng y nodweddion hyn. Dylai unrhyw ymyrraeth sydd wedi'i thargedu at y nodweddion hyn osgoi eu hystyried yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'r nodweddion hyn wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn unol â hynny, i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hintegreiddio i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

5.3.9 Yn ogystal â gwella cydnerthedd cymunedau i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, mae hefyd yn bwysig gwneud ymdrechion gorau i leihau maint yr effeithiau hyn. Cydnabuwyd hyn yn natganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng newid yn yr hinsawdd yn 2019[14] a gellir gwneud hyn i ryw raddau trwy leihau cyfraniad Cymru at achosion y newid yn yr hinsawdd, fel trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyfanswm ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru (cyllidebau carbon Cymru). Ceir cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hybu moddau trafnidiaeth carbon isel, yn ogystal â gwell safonau o effeithlonrwydd ynni mewn seilwaith trafnidiaeth, a thrwy wneud hynny byddai'n helpu i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cyd-fynd â chyllidebau carbon Cymru. Nod y gyllideb garbon gyntaf, ar gyfer 2016 – 2020, oedd sicrhau gostyngiad o 23% i allyriadau

[14] Datganiad argyfwng newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd

o'u cymharu ag allyriadau sylfaenol 1990, a'r gyllideb ar gyfer 2021 – 2025 yw sicrhau gostyngiad o 33%[15].Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth, trwy hybu teithio llesol a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn yn ogystal â gweithredu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy:

- Yn gyntaf, trwy leihau'r angen i deithio'n anghynaliadwy, fel trwy ddod â gwasanaethau yn agosach at bobl, cynllunio integredig (cymunedau wedi'u hadeiladu o gwmpas canolfannau trafnidiaeth), TGCh, gweithio hyblyg a gweithio gartref;
- Yn ail, trwy ehangu a hybu dewisiadau teithio mwy cynaliadwy fel trwy fwy o integreiddio a newid moddol; ac
- Yn drydydd, trwy wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol fel rheoli galw, cyfleusterau a chapasiti yn effeithlon.

5.3.10 Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn elfen bwysig o Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel y gellir integreiddio'r egwyddorion carbon isel hyn i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**5.3.11 Brexit**

5.3.12 Er bod y penderfyniad i'r DU adael yr UE yn dod â newidiadau polisi posibl, cydnabyddir ei fod hefyd yn cynnig y cyfle i lunio ffordd newydd ymlaen i Gymru. Mae'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei wneud trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn cynnig sylfaen gref ar gyfer adeiladu dyfodol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i lunio rhaglenni, polisïau a rheoliadau yn y dyfodol sydd wedi'u teilwra'n benodol i gyd-destun ac anghenion unigryw Cymru. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cymryd i ystyriaeth y goblygiadau y gallai Brexit eu cael, fel ar gludo nwyddau, porthladdoedd, caffael a rheoliadau masnach.

**5.3.13 COVID-19**

5.3.14 Mae pandemig diweddar COVID-19 wedi newid bywyd yng Nghymru yn ddramatig yn y byrdymor. Ceir ansicrwydd ynghylch ei oblygiadau hirdymor, gan gynnwys sut y gallai'r mesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â'r pandemig hefyd effeithio ar fywyd yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd rhai agweddau ar y ffordd y mae cymdeithas a'r economi, gan gynnwys y sector trafnidiaeth efallai, yn cael eu newid yn barhaol. Wrth baratoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau posibl COVID-19 gan gynnwys sut y gallai ddylanwadu ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'i gweithrediad.

5.3.15 Mae Creu Lleoedd a'r Adferiad COVID-19 (2020) yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau i leoedd yn dilyn y pandemig. Rhennir yr ystyriaethau ar ôl COVID-19 yn dri chategori:

1. Ein profiad o effeithiau uniongyrchol cyfnod cyfyngiadau symud COVID-19 a'r newidiadau cadarnhaol parhaol y mae angen i ni eu gweld mewn lleoedd ac yn rhan o ddatblygiadau newydd.

[15] Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/1303/regulation/2/made/welsh

2. Y gwersi yr ydym wedi eu dysgu dros y cyfnod hwn a sut y gallwn helpu i wneud lleoedd yn fwy cydnerth a hyblyg os bydd achosion o bandemig yn y dyfodol.
3. Cynorthwyo'r adferiad ar ôl i'r pandemig ddod i ben ac i gyfyngiadau gael eu llacio i sicrhau ei fod o fudd i bob rhan o gymdeithas ac yn ein helpu i ddatgarboneiddio, i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, i wrthdroi dirywiad i fioamrywiaeth ac i wella iechyd a llesiant cyffredinol.

5.3.16 Mae trafnidiaeth, ar draws bob modd, wedi cael ei heffeithio o ganlyniad i COVID-19. Bu gostyngiadau mawr i draffig modurol, llai o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lefelau uwch o weithio gartref a lefelau uwch o foddau teithio llesol; cerdded a beicio. Bydd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran allweddol i'r chwarae yng nghanlyniadau'r pandemig yn y dyfodol, gan gynnwys lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol.

*Tabl 4-1 Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol yn deillio o adolygiad o'r Llinell Sylfaen*

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| 1. Cymru lewyrchus | Mae economi Cymru wedi'i halinio'n agos ag economi gweddill y DU. Bu rhywfaint o symudiad at gyflogaeth sector gwasanaethu a dirywiad i ddiwydiant trwm; mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu amrywiol o hyd.<br><br>Ceir gwahaniaethau daearyddol eglur mewn gweithgarwch cyflogaeth yng Nghymru gyda phocedi o amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y de ac yn rhai o drefi arfordirol y gogledd.<br><br>Mae rhesymau allweddol am berfformiad economaidd gymharol wael yn cynnwys:<br>• Lefelau sgiliau cymharol isel a lefelau cyrhaeddiad addysgol gwael (er eu bod yn gwella), yn enwedig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o'r wlad.<br>• Mae natur bennaf wledig y wlad yn arwain at ardaloedd trefol cymharol fach y byddai ganddynt gysylltiad cryfach ag effeithiau cydgrynhoi fel arall.<br>• Ceir cyfran gymharol uchel o bobl hŷn sydd o oedran ymddeol.<br>• Ceir lefelau uchel o dagfeydd sy'n cael effeithiau economaidd negyddol gan gynnwys yr effaith ar gynhyrchiant a chludo nwyddau.<br><br>Mae'r ddogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report* yn tynnu sylw at nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran busnes. Gallai'r rhain gael effeithiau ar nifer o ffactorau gan gynnwys iechyd a llesiant, cyflogaeth a'r economi. Gellir crynhoi materion o'r fath sy'n wynebu Cymru fel risgiau i | Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran i'w chwarae o ran sicrhau twf cytbwys a chynaliadwy, a'r newid i economi defnydd adnodd isel (gan gynnwys carbon isel) i ganiatáu i'r boblogaeth fyw o fewn terfynau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i hybu trafnidiaeth cludo nwyddau gynaliadwy.<br><br>Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cynnig cyfle i'r economi gael ei llywio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Gall hyn fod trwy hybu seilwaith teithio cynaliadwy a gwella mynediad at ganolfannau cyflogaeth. Gall hefyd gynnig fframwaith sy'n fwy ymatebol i anghenion yr economi ac yn gallu cefnog sectorau newydd sy'n dod i'r amlwg a chefnogi newid rhai presennol trwy greu a gwella rhwydweithiau. Hefyd, gall gynorthwyo i lywio'r broses o greu amgylchedd sy'n ddeniadol i fewnfuddsoddiad ac yn annog mynediad cynaliadwy at swyddi. Yn yr un modd, gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hwyluso gwelliannau i fynediad at addysg.<br><br>Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru geisio helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb trwy fynediad at well addysg, gwell cysylltedd rhwng cymunedau a mynediad at swyddi a'r farchnad swyddi.<br><br>Ar y cyfan, gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i sicrhau'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sydd |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | fusnesau o lifogydd, colli lleoliadau arfordirol, prinder dŵr, llai o fynediad at gyfalaf, llai o gynhyrchiant oherwydd tarfu ar seilwaith ac ati, tarfu ar gadwyni cyflenwi a newidiadau i alw am nwyddau a gwasanaethau. Dylid cymryd y rhain i gyd i ystyriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan y byddant i gyd yn dylanwadu ar arferion defnyddwyr trafnidiaeth.<br><br>Mae'r cynllun addasu i'r newid yn yr hinsawdd 'Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd' yn nodi ymrwymiadau i ymateb i'r effeithiau o'r newid yn yr hinsawdd yr ydym eisoes yn eu gweld a'r rhai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn ategu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatgarboneiddio economi Cymru a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth baratoi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.<br><br>Ceir problemau o ran darparu mynediad at ysgolion a chyflogaeth, gan fod yr ardaloedd dwysedd uchaf ar gyfer y rhain yn ardaloedd trefol Cymru. Mae'r cyfleusterau hyn yn llawer mwy anodd eu cyrraedd trwy unrhyw fodd ac eithrio car sy'n eiddo preifat yng Nghymru wledig. Dylid nodi, yn unol ag Atodiad B, bod bylchau data o ran gwybodaeth fanwl am fynediad at ysgolion. | hefyd yn gynaliadwy ac yn parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.<br><br>Ceir cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gefnogi cyflogaeth trwy hyrwyddo a chefnogi twristiaeth gweithgareddau, gan gynnwys dynodi'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol fel cyfleuster trafnidiaeth strategol i annog twristiaeth gweithgareddau.<br><br>Ceir cyfle i hybu'r defnydd o deithio llesol i ysgolion cynradd ac uwchradd trwy gynlluniau cerdded i'r ysgol.<br><br>Ceir cyfle hefyd trwy well cynlluniau trafnidiaeth cyhoeddus i alluogi pobl i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o opsiynau cyflogaeth ac addysg.<br><br>Ceir cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru leihau tagfeydd trwy hybu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy ail-neilltuo lle ar ffyrdd a moddau teithio cynaliadwy integredig. |
| 2. Cymru gydnerth | **Ansawdd Aer**<br><br>• Mae ansawdd aer yng Nghymru yn dda iawn yn gyffredinol, gan adlewyrchu ei natur bennaf wledig a'i hamgylchedd naturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, ceir diffyg cydymffurfiad â thargedau ar gyfer nifer o lygryddion allweddol sy'n peri risg i iechyd pobl ac i'r | **Ansawdd Aer**<br><br>• Mae'r system drafnidiaeth yn gyfrannwr sylweddol at lygredd aer ar hyn o bryd. Gellid gweithredu cyfle i leihau'r effaith negyddol hon ar ansawdd aer trwy helpu i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o lygredd o drafnidiaeth |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | amgylchedd naturiol, felly mae'n rhaid i'r cynllun trafnidiaeth gymryd hyn i ystyriaeth. Mae hyn yn digwydd yn fwyaf amlwg mewn ardaloedd trefol a nesaf at ffyrdd prysur.<br>• Mae 90% o gynefinoedd lled naturiol sensitif o ran nitrogen yn destun gwaddodi nitrogen ar lefel sy'n uwch na chyfyngiadau llwyth critigol. Mae trafnidiaeth yn ffynhonnell sylweddol o lygredd nitrogen.<br>• Trafnidiaeth ffordd sy'n gyfrifol am bron i un rhan o dair o'r holl allyriadau $NO_2$ yn y DU a thrafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).<br>**Llygredd Sŵn**<br>• Mae sŵn ffyrdd wedi'i ganolbwyntio o gwmpas yr M4 yn y de a'r ffyrdd 'A' nesaf ati. Mae'r A55 a'r ffyrdd 'A' nesaf ati yn y gogledd, a'r A483 yn y canolbarth, hefyd yn cyfrannu at lefelau uchel o lygredd sŵn. Mae llygredd sŵn o reilffyrdd yn bresennol yn y de o gwmpas Caerdydd yn bennaf (data o 2018).<br>**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna a Chydnerthedd Ecosystemau**<br>• Mae gan Gymru amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys cynrychiolaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Fodd bynnag, mae cyflwr nodweddion rhywogaeth mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd yng Nghymru a chyflwr cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn dal i fod yn anffafriol ar y cyfan. Mae'n rhaid i'r cynllun trafnidiaeth wneud ei orau i beidio â tharfu ar y cynefinoedd trwy ddarnio cynefinoedd neu effeithiau | trwy sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bellter yn cael ei deithio ac annog moddau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirweddu cynaliadwy hefyd helpu i gynnig cyfleoedd ar gyfer amsugno rhai llygryddion.<br>**Llygredd Sŵn**<br>• Gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael effaith ar lygredd sŵn trwy sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar yr egwyddor o leihau allyriadau trwy newid i weithredu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirweddu cynaliadwy helpu i leihau effaith sŵn ac effaith bosibl trafnidiaeth ar ardaloedd tawel.<br>**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna a Chydnerthedd Ecosystemau**<br>• Gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru fod o fudd i fioamrywiaeth a'i gwella trwy lywio lleoliad datblygiad seilwaith trafnidiaeth newydd a'r modd y mae'n digwydd. Mae'n cynnig cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella drwy'r system drafnidiaeth, nid yn unig o ran safleoedd gwarchodedig ond hefyd o ran bioamrywiaeth a chysylltedd yn gyffredinol. Gallai manteision eraill gynnwys rheoli cynefinoedd yn well; gallai strwythurau newydd e.e. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | anuniongyrchol fel gwaddodi nitrogen, marwolaeth bywyd gwyllt neu aflonyddwch sŵn.<br>• Mae bioamrywiaeth ddaearol, dŵr croyw a morol o dan fygythiad o ddatblygiad seilwaith trafnidiaeth, llygredd a'r newid yn yr hinsawdd, y mae pob un ohonynt yn effeithiau a ddaw o'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Gall hyd yn oed colled cynefin cymharol fân, darnio ac effeithiau uniongyrchol prosiect ffordd unigol, o'i ychwanegu at effeithiau prosiectau a gweithgareddau eraill o'r gorffennol, y presennol ac yn y dyfodol y gellir ei ragweld yn rhesymol, gyfrannu at effeithiau sylweddol mewn ardal. Dylid ystyried pob math perthnasol o brosiect a gweithgaredd yn y dyfodol (h.y. nid prosiectau ffyrdd eraill yn unig) gan gynnwys datblygiad a ysgogir. | pontydd a thwnelau ddarparu cynefinoedd i rai rhywogaethau e.e. ystlumod; a chreu cynefin.<br>• Ceir cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hybu seilwaith gwyrdd ychwanegol yn rhan o gynigion trafnidiaeth y dyfodol i gefnogi gwaith creu lleoedd yn ogystal â bioamrywiaeth, fflora a ffawna. |
| | **Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**<br>• Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ac mae addasu a sicrhau cydnerthedd yn erbyn ei effeithiau yn rheidrwydd cynyddol. Yn nodedig, mae perygl llifogydd yn broblem sylweddol yng Nghymru gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb a allai effeithio ar seilwaith trafnidiaeth. Caiff hyn ei waethygu gan gynnydd i nifer y digwyddiadau tywydd eithafol ac mae hyn yn golygu bod eiddo a busnesau mewn perygl cynyddol. Gall tarfu effeithio'n anghymesur ar gymunedau â llai o opsiynau trafnidiaeth ac sy'n llai cydnerth.<br>• Bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru mewn ffyrdd ac eithrio llifogydd yn unig, fel | **Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran sylweddol i'w chwarae o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd yn ei erbyn. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn feysydd allweddol lle caiff effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eu teimlo'n lleol a gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i gynnig cyfarwyddyd ar leoliad a dyluniad datblygiad seilwaith i helpu i sicrhau bod y risg mor isel â phosibl. Mae hefyd yn gyfle i ddatblygu ymhellach gwaith gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynllunio rheoli ac amddiffyn rhag llifogydd yn rhan o annog rheolaeth gynaliadwy o dir ac ecosystemau, gan |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | digwyddiadau tywydd mwy eithafol, cynnydd i dywydd stormus, tymereddau uchaf ac isaf uwch ac is, sychderau mwy difrifol a chyfraddau gwaeth o erydu arfordirol. Bydd y newid yn yr hinsawdd hefyd yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau ledled Cymru. | gynnwys y cyfle i gynnwys SDCau i leihau effaith cynlluniau newydd ar berygl llifogydd. |
| | **Daeareg a Phriddoedd**<br>• Yn y dyfodol, gallai peryglon daearegol newid fel ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, erydu arfordirol, tirlithriadau a llygredd o hen safleoedd cloddio. Mae hyn yn peri risgiau sylweddol i'r system drafnidiaeth.<br>• Mae'r priddoedd o'r ansawdd gorau a mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a chyfyngedig yng Nghymru ac mae ansawdd pridd wedi dirywio dros amser ar draws pob cynefin. Dim ond 30% o arwynebedd pridd mawn Cymru sy'n cael ei ystyried mewn 'cyflwr da'. Mae hwn yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, cymeriad tirwedd, twristiaeth, cynhyrchiant amaethyddol a chydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae uwchbridd, yn enwedig priddoedd mawnog yng Nghymru yn ddalfa garbon fawr y mae angen eu diogelu. Mae'n rhaid cymryd hyn i gyd i ystyriaeth wrth gynllunio lleoliad seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol. | **Daeareg a Phriddoedd**<br>• Ceir cyfle i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru lywio'r defnydd cynaliadwy o ddaeareg a phriddoedd Cymru yn y system drafnidiaeth o ran eu defnydd i adeiladu seilwaith trafnidiaeth.<br>• Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd helpu i osgoi risgiau yn y dyfodol trwy reoli neu osgoi peryglon daearegol trwy gynllunio'r system drafnidiaeth. Mae chwilio am ffynonellau confensiynol ac anghonfensiynol o olew a nwy yn dal i fod yn bosibilrwydd yng Nghymru hefyd a bydd ei ystyried yn rhan o Strategaeth Ynni newydd Llywodraeth Cymru. |
| | **Amgylchedd Dŵr**<br>• Nid yw ansawdd cyrff dŵr Cymru yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o hyd, a dim ond 42% oedd o statws ecolegol da yn 2014. Gall gweithgareddau trafnidiaeth gyfrannu at ansawdd dŵr | **Amgylchedd Dŵr**<br>• Gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i lywio datblygiad newydd o seilwaith trafnidiaeth a llwybrau trafnidiaeth mewn modd sy'n ceisio osgoi llygru cyrff dŵr. Dylai hefyd fod yn ymwybodol o gyfyngiadau posibl |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | gwael, felly mae'n rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Yn llawer o afonydd Cymru, mae llifoedd yn arbennig o agored i'r newid yn yr hinsawdd gan eu bod yn tueddu i godi a gostwng yn gyflym mewn ymateb i lawiad. Gallai llifoedd cynyddol yn ystod y gaeaf hefyd gynyddu pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio a llygredd gwasgaredig (a allai ddod o ddŵr ffo arwyneb ffyrdd).<br>• Er y tybir bod Cymru yn gyfoethog o ran dŵr, mae eisoes yn wynebu heriau o ran cyflenwad a gall adnoddau dŵr ddod yn gymharol brin yn ystod tywydd cynnes a sych estynedig.<br>• Gall dŵr ffo o ffyrdd a gollyngiadau ar ffyrdd ac wrth adeiladu i gyd arwain at lygredd mewn dyfroedd wyneb, dyfroedd daear ac amgylcheddau morol (o gwmpas porthladdoedd).<br>**Mwynau a Gwastraff**<br>• Mae gan y wlad adnoddau sylweddol o hyd os oes eu hangen. Fodd bynnag, mae rheoli'r gwaith cloddio hwn yn angenrheidiol ar gyfer gweithgarwch parhaus neu yn y dyfodol. Gall diogelu mwynau hefyd wrthdaro weithiau â mathau eraill o ddatblygiad e.e. ffyrdd newydd.<br>• Efallai y bydd gofynion deunydd uchel ar gyfer adeiladu seilwaith trafnidiaeth gan roi straen pellach ar yr adnoddau cyfyngedig.<br>**COVID-19**<br>• Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio fwyaf ar yr unigolion mwy agored i niwed a'r cymunedau mwyaf | y cyflenwad dŵr a dylai hybu mesurau i leihau defnydd o ddŵr mewn datblygiadau.<br>**Mwynau a Gwastraff**<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran i'w chwarae o ran y galw am fwynau (trwy eu defnydd i adeiladu seilwaith trafnidiaeth), eu cynllunio a'u rheoli. Gall helpu i lywio'r defnydd cynaliadwy o adnoddau o'r fath trwy ei pholisïau.<br>**COVID-19**<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran i'w chwarae yn yr adferiad o COVID-19, yn enwedig o ran mynd i'r afael â newidiadau i symudedd. Dylai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi cael eu gwaethygu gan COVID-19 a dylai hybu adferiad parhaus a chyfartal. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | difreintiedig. Nid yw effeithiau hirdymor y pandemig yn hysbys ar hyn o bryd, ac er y bu rhai effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys gwell ansawdd aer a mwy o ddibyniaeth ar deithio llesol, dylai'r dull adfer hybu cydraddoldeb cymdeithasol, iechyd ac economaidd. | |
| 3. Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal | • Yn gyffredinol, mae ystadegau iechyd ar gyfer Cymru yn gwella wrth i ddisgwyliad oes gynyddu a llai o bobl yn adrodd iechyd gwael dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw enillion iechyd wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y wlad ac yn benodol mae mynediad at wasanaethau yn amrywiol, gan ei fod yn well mewn ardaloedd mwy trefol, a'r de yn arbennig, ond yn gymharol wael ar draws llawer o Gymru wledig. Er bod iechyd y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn gyffredinol dda o'i gymharu ag iechyd amgylcheddau trefol.<br>• Ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o'u cymharu â rhai amgylchedd trefol a all effeithio ar iechyd yn fwy sylweddol ac arwain at anghydraddoldebau ac iechyd gwaeth, fel pellter o wasanaethau cyhoeddus a chymorth, y drafnidiaeth sydd ar gael, a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Gall mynediad at ofal iechyd fod yn gyfyngedig mewn llawer o rannau o Gymru wledig. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig i gynaliadwyedd ac annibyniaeth cymunedau gwledig.<br>• Er bod pobl yn byw'n hwy a bod cyfraddau rhai clefydau yn gostwng, gall heriau fel amgylchedd byw a ffyrdd modern o fyw gyfrannu at lefelau cynyddol o glefydau cronig fel diabetes, problemau cymalau, | • Yn gyffredinol, gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i sicrhau'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.<br>• Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gydnabod y potensial i fannau gwyrdd naturiol fel lleoedd ar gyfer iechyd a hamdden, cysylltu cynefinoedd a chefnogi rhyngweithio cymunedol. Gallai gwella'r mynediad at fannau gwyrdd ac agored, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, annog ffyrdd mwy iach o fyw yn fawr a gallai poblogaeth iachach alluogi pobl (gan gynnwys plant) i wireddu eu potensial a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.<br>• Mae diogelu a gwella seilwaith gwyrdd ledled Cymru gyfan yn gyfle i wella mynediad pobl at fannau gwyrdd ac agored. Mae mynediad at amrywiaeth eang o gynefinoedd lled naturiol a naturiol, yn ogystal â darparu lle ar gyfer ymarfer corff ac ymgysylltu cymunedol awyr agored, yn hanfodol i lesiant corfforol a meddyliol. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | clefyd y galon a rhai mathau o ganser a all arwain wedyn at anabledd a galw cynyddol am wasanaethau iechyd. Hefyd, gall iechyd meddwl gwael hefyd fod yn ffactor sy'n sil i nifer o glefydau corfforol a ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach. Gall ansawdd aer gwael, sŵn a llygredd golau yn ogystal â gwrthdrawiadau traffig ffordd gael effaith uniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth.<br>• Gallai'r system drafnidiaeth gael ei rhoi o dan straen trwy gynnydd a ragwelir i fudiad net yn bennaf o'r tu mewn i'r DU a rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf mewn ardaloedd trefol.<br>• Gallai lefelau cynyddol o bobl 65 oed a hŷn greu pwysau ar draws y wlad (yn dibynnu ar ba un a yw disgwyliad oes iach h.y. nifer y blynyddoedd yr ydych yn byw bywyd iach, yn parhau i olrhain disgwyliad oes cyffredinol) e.e. darparu gwasanaethau priodol ar gyfer cenhedlaeth hŷn (e.e. trafnidiaeth).<br>• Mae materion yn ymwneud â phobl ifanc yn ymwneud â'u symudiad o ddibyniaeth i annibyniaeth, gan fod trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig ar 'drothwyon' fel symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac yna symud o addysg i gyflogaeth.<br>• Mae anghydraddoldebau iechyd yn adlewyrchu anghydraddoldebau yn y dosbarthiad o benderfynyddion iechyd, fel mynediad at drafnidiaeth, addysg a chyfleoedd gwaith.<br>• Gall anableddau a/neu namau symudedd fod yn rhwystrau corfforol a meddyliol i ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth ar draws bob modd. Mae'n | • Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyfraniad pwysig i'w wneud at sicrhau y darperir iechyd pobl trwy well mynediad at gyfleusterau iechyd, pwyslais ar leihau allyriadau llygredd aer, diogelwch ar y ffyrdd ac annog teithio llesol er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. (Dylid nodi bod llawer o deithio llesol yn digwydd yng nghyd-destun cadwyni teithiau).<br>• Yn gyffredinol, gall Strategaeth Drafnidiaeth Cymru helpu i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â'r boblogaeth sy'n heneiddio trwy hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth hygyrch wedi eu cefnogi gan seilwaith cysylltiol i ddiwallu anghenion twf poblogaeth lleol ac anghenion grwpiau unigol.<br>• Gall Cymru gyfartal helpu pobl i wireddu eu potensial llawn gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gynnig cyfle i leihau ynysigrwydd ac annog datblygiad cymunedau integredig y gellir byw ynddynt trwy ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus gynhwysol i ganiatáu i bawb gael yr un lefel o fynediad.<br>• Dylai'r system drafnidiaeth sicrhau y gall pob grŵp gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gyfartal heb ofn na rhagfarn. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | bwysig bod y system drafnidiaeth yn cyd-fynd â'r Model Cymdeithasol o Anabledd lle mae dylunio gwael sy'n achosi rhwystr i fynediad pobl at drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei osgoi a'i waredu.<br>• Mae trafnidiaeth ffordd yn cael pum prif effaith ar iechyd y cyhoedd: llygredd aer, anweithgarwch corfforol, diogelwch ar y ffyrdd, sŵn a'r arwahanrwydd a wynebir gan bobl agored i niwed oherwydd ofnau ynghylch perygl ar ffyrdd, sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd gwaith neu addysgol, rhwydweithiau cymdeithasol, amwynderau lleol a gwasanaethau (gan gynnwys gofal iechyd), sy'n ychwanegu at y perygl o salwch meddyliol a chorfforol.<br>• Gall materion yn ymwneud a menywod yn benodol ymwneud ag ofni trosedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â dibyniaeth wahaniaethol ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer symudedd.<br>• Gallai hygyrchedd corfforol trafnidiaeth gael effaith ar allu pobl anabl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Gallai rhwystrau eraill fod yn amharu ar fynediad pobl at drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar iaith (gan gynnwys i ddefnyddwyr y daith iaith swyddogol yng Nghymru: Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain).<br>• Ceir perygl uchel o hyd o anafiadau ar y ffyrdd i bobl ifanc y mae'n rhaid i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddo.<br>• Ceir gwahaniaeth mawr o hyd rhwng nifer y trwyddedau gyrru y mae menywod a dynion yn meddu arnynt. Mae gan fenywod lawer llai ac mae hyn ei | • Gellir lleihau anghydraddoldeb trwy gynyddu mynediad i'r mwyaf difreintiedig yn fwy na'r lleiaf difreintiedig neu gynyddu mynediad i'r mwyaf difreintiedig a chadw'r lleiaf difreintiedig yn gyson. Byddai unrhyw ffurf arall yn golygu lleihau mynediad at y naill grŵp neu'r llall neu'r ddau, felly ni ddylai fod yn nod i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.<br>• Gellir hefyd fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy bolisïau a seilwaith i hybu teithio llesol, gan gynyddu gweithgarwch corfforol, a lleihau llygredd a sŵn. Dylid canolbwyntio mesurau teithio llesol mewn ardaloedd o amddifadedd i leihau anghydraddoldebau.<br>• Gall yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig helpu i sicrhau bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cymryd y Model Cymdeithasol o Anabledd i ystyriaeth.<br>• Gall yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig helpu i sicrhau bod Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn helpu i osgoi neu gael gwared ar rwystrau i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys i ddefnyddwyr y tair iaith swyddogol yng Nghymru (Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain). |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | gwneud yn anodd iddynt gael yr un mynediad at gyfleusterau ac amwynderau â dynion.<br>• Mae pobl â salwch cronig neu sy'n anabl yn eithriadol o sensitif i lygredd sŵn neu aer yn eu hamgylchedd lleol, ac mae'r effeithiau yn amrywio o darfu ar gwsg i bwysedd gwaed uchel.<br>• Mae pobl ag incymau isel (defnyddir byw mewn ardal o amddifadedd fel procsi ar gyfer incwm isel) nad oes ganddynt fynediad at gar yn debygol o gerdded ymhellach. Gallai eu diffyg opsiynau trafnidiaeth, a allai gynnwys fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, gyfyngu ar gyfleoedd bywyd a gwaith. Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd fod yn arbennig o agored i niwed o ddigwyddiadau traffig ffordd. Gall y grŵp hwn hefyd fod â lefelau staen uwch a gellir ystyried bod amgylchedd ffisegol gwael yn rhwystr i deithio llesol.<br>• Mae pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn fwy tebygol o fyw mewn aelwyd heb gar ac felly byddant yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bu 77 o droseddau gwaethygedig ar sail hil ar reilffyrdd Prydain dros dair blynedd. Mae'n rhaid i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddarparu ar gyfer diogelwch a chynhwysiant lleiafrifoedd ar draws pob modd o drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Mae menywod a grwpiau lleiafrifol yn fwy tebygol o deithio ar fws, ond mae mwy o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn rheilffyrdd fel dull trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n rhaid i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ddarparu ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal trwy wneud y buddsoddiad angenrheidiol yn y drafnidiaeth | |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | gyhoeddus a ddefnyddir fwyaf gan y grwpiau hyn neu gael gwared ar unrhyw rwystrau posibl i fathau eraill o drafnidiaeth i'r grwpiau hyn.<br>• Mae lefelau llygredd sŵn o gwmpas ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau hynod amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd pobl.<br>• Mae'r bwlch cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau yn cynyddu yng Nghymru. Mae'n rhaid i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sicrhau bod dynion a menywod sy'n gweithio i'r system drafnidiaeth yn cael tâl cyfartal am wneud yr un swydd. | |
| 4. Cymru o gymunedau cydlynus | • Mae prisiau tocynnau bws yn cynyddu ar gyfradd uwch na chwyddiant, a gallai hyn eithrio rhai pobl neu gymunedau o'r math hwn o drafnidiaeth oherwydd rhwystr pris.<br>• Mae nifer y marwolaethau ar y ffyrdd yn parhau'n gyson o un flwyddyn i'r llall pan ddylai fod yn gwella. Dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau diogelwch gyrwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd cymaint â phosibl.<br>• Mae lefelau llygredd sŵn o gwmpas ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau hynod amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd pobl.<br>• Gall ynysigrwydd ac unigrwydd gwledig arwain at broblemau iechyd meddwl. Gall y rhain gael eu hachosi gan system drafnidiaeth lai hygyrch yn lleihau mynediad at gymunedau, ond hefyd gall ceir sy'n teithio trwy gymunedau wahanu cymunedau o bobtu'r ffordd a hybu arwahanrwydd. | • Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gynorthwyo'r broses o greu cysylltiadau rhwng ac o fewn cymunedau diogel sydd wedi eu cynnal yn dda trwy gyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol gan gynnwys llwybrau troed a beicio.<br>• Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd gynllunio ar gyfer lleihau'r angen i deithio; a chynnig cyfleoedd i gael mynediad at ddatblygiad a gwasanaethau newydd a phresennol trwy amrywiaeth o foddau teithio cynaliadwy a/neu welliannau i gysylltedd digidol. Trwy leihau nifer y teithiau car gyrrwr yn unig, gellid lleihau'r perygl i ddefnyddwyr anfodurol a lleddfu'r broblem o arwahanrwydd.<br>• Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ystyried cynigion trafnidiaeth strategol o ran y |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | • Pan fydd pobl yn teithio, dylent allu gwneud hynny heb ofni na theimlo dan fygythiad trosedd. | cyfleoedd y maent yn eu cynnig i annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â gwella iechyd pobl, tirwedd a chadwraeth natur trwy leihau llygredd sŵn a golau. |
| 5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **Y Gymraeg**<br>• Bu tuedd ar i fyny ers y 1990au o ran nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; ceir cyfleoedd i gynyddu lefelau rhugldder.<br>• Mewn rhai achosion, mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn brin, oherwydd y ffaith nad yw staff gwasanaeth cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.<br><br>**Cymeriad Tirwedd a Threflun** | **Y Gymraeg**<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyfle i ddiogelu'r Gymraeg a hybu'r defnydd ohono drwy'r system drafnidiaeth trwy annog ei defnydd ar arwyddion ac ymhlith cyflogeion gorsafoedd bysiau a rheilffordd. Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu yn rhan o'r nod hwn, i gefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd geisio cefnogi'r nod o gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynnydd i'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Gallai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru geisio cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy ei pholisïau, gan helpu i gefnogi'r nod ddatblygu pwyslais rhanbarthol newydd i ddatblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i elwa o ffyniant a chynorthwyo pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth unigryw ei hun. Bydd cyfleoedd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i hybu'r Gymraeg trwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau mewn gorsafoedd, arwyddion |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | • Mae Cymru yn adnabyddus am ei thirweddau o ansawdd uchel ac mae dros 50% o'r arwynebedd tir yn cael ei werthfawrogi'n genedlaethol am ei ansawdd a'i gymeriad golygfaol. Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol yn Dirweddau Dynodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn gorchuddio 25% o Gymru. Mae gan hyn oblygiadau i ddatblygiad seilwaith trafnidiaeth newydd yn yr ardaloedd hyn gyda her allweddol i reoli cynaliadwy allu galluogi lefelau priodol o dwf gan gadw unigrywedd lleoedd a thirweddau. Mae'n rhaid i hyn gydnabod hefyd bod elfennau naturiol a hanesyddol tirwedd yn bwysig i le a gwerth diwylliannol tirwedd.<br>• Gallai colli amwynder a chymeriad gweledol gael effeithiau ar bobl leol a thwristiaid.<br>• Gall traffig modurol, parcio ac effeithiau cysylltiedig ddifetha cymeriad tirweddau a threfluniau.<br><br>**Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau**<br>• Mae gan Gymru gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n elfennau pwysig o hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol. Mae llawer o asedau o'r fath mewn perygl, er enghraifft, o ddirywiad, ffactorau hinsoddol, esgeulustod a datblygiad amhriodol. Yn yr un modd â ffactorau amgylcheddol eraill, mae diogelu a darparu mynediad teg at asedau treftadaeth ddiwylliannol yn her allweddol ar gyfer cynllunio'r system drafnidiaeth yn gynaliadwy. | ffordd ac arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau.<br><br>**Cymeriad Tirwedd a Threflun**<br>• Mae gan y system drafnidiaeth ran fawr i'w chwarae o ran sut y bydd datblygiad seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol yn effeithio ar dirwedd, treflun, a synnwyr o le yn gyffredinol.<br>• Ceir cyfle ar gyfer gwella mynediad at dirweddau, trefluniau a safbwyntiau a werthfawrogir, gan gynnwys trwy foddau trafnidiaeth cynaliadwy a llesol i leihau effaith traffig modurol.<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyfle i ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd uchel i Barciau Cenedlaethol i dwristiaid/ymwelwyr a defnyddwyr hamdden lleol, yn ogystal â gwella rheolaeth teithio mewn ardaloedd twristiaeth.<br><br>**Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau** |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | • Gall datblygiad newydd gael amrywiaeth o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y mae angen eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys effeithiau o lygredd sŵn ac aer o adeiladu llwybrau traffig prysur yn agos at ardaloedd o arwyddocâd diwylliannol a allai eu gwneud yn llai deniadol i ymweld â nhw neu leihau eu hamwynder gweledol (effeithiau anuniongyrchol). Mae hefyd yn cynnwys cael gwared ar asedau treftadaeth yn ffisegol gan y gallai hyn fod yn ofynnol ar gyfer datblygu seilwaith teithio newydd. Gall effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gynnwys dwysau traffig presennol neu adeiladu ffyrdd neu reilffyrdd newydd. Gall lefelau cynyddol o dagfeydd effeithio ar drefi a dinasoedd hanesyddol a chefn gwlad, a gall datblygu seilwaith trafnidiaeth newydd effeithio ar dirweddau hanesyddol a gallai achosi difrod uniongyrchol i asedau treftadaeth. | • Yn yr un modd â thirwedd, mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ran fawr i'w chwarae o ran diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â hygyrchedd asedau treftadaeth, trwy ganllawiau i'r system drafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cydnabod bod asedau treftadaeth annynodedig hefyd yn rhan bwysig o gyfansoddiad hunaniaeth ddiwylliannol a synnwyr o le a bod effeithiau anuniongyrchol ar leoliad asedau hefyd yn ystyriaethau pwysig e.e. llygredd sŵn ac aer o draffig.<br>• Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac annog gwell mynediad at ganolfannau addysg diwylliannol.<br>• Dylai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru geisio nodi a diogelu seilwaith trafnidiaeth a allai fod o werth treftadaeth ynddo'i hun.<br>• Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y cyfle i gyfrannu at reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a hamdden a digwyddiadau diwylliannol. |
| 6. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | • Mae'n rhaid lleihau ôl-troed ecolegol Cymru a pheidio â'i beryglu trwy ddatblygiadau trafnidiaeth.<br>• Mae'n rhaid cymryd mesurau i sicrhau diogelwch cerddwyr a beicwyr ar y ffordd er mwyn hybu teithio llesol fel modd ymarferol o deithio. | • Mae gan Strategateh Drafnidiaeth Cymru bwyslais ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yn sylweddol, trwy hybu moddau trafnidiaeth mwy cynaliadwy fel trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru roi sylw iddynt |
|---|---|---|
| | • Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng newid yn yr hinsawdd yn 2019.<br>• Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn gostwng yn raddol yng Nghymru; ceir llawer i'w wneud o hyd i fodloni'r targedau allyriadau. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i'r symudiad graddol o ran cynhyrchu ynni i danwyddau adnewyddadwy a glanach ynghyd â gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd mewn diwydiant. Fodd bynnag, unwaith eto ceir heriau i gynnal y tueddiadau cadarnhaol hyn.<br>• Mae'r ddogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report* yn tynnu sylw at nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran trafnidiaeth, gan gynnwys yr angen i drosglwyddo i gerbydau allyriadau isel ac opsiynau teithio llesol gwell.<br>• Mae ôl-troed byd-eang a amcangyfrifir Cymru yn uchel o'i gymharu â gwledydd datblygedig eraill. Ceir her i leihau hwn gan hefyd hwyluso datblygiad newydd a thwf economaidd. | • Mae gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gyfle i helpu i hybu moddau trafnidiaeth carbon isel a gwell safonau o effeithlonrwydd ynni mewn seilwaith trafnidiaeth.<br>• Dylai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru geisio lleihau twf traffig modurol.<br>• Mae'n rhaid i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hybu moddau trafnidiaeth cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn hefyd, fel dewis yn hytrach na phetrol/diesel).<br>• Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cynnig cyfle i<br>leihau'r angen i deithio'n anghynaliadwy i ehangu a hybu dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, a gwneud gwell defnydd o'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol. |

# 6 Y Broses Arfarnu a Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (A4)

## 6.1 Y Broses Arfarnu

6.1.1 Mae Adran 2 yr Adroddiad hwn yn disgrifio’r camau ym Mhroses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae Cam B yn cyfateb i arfarnu effeithiau posibl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Ar y cam hwn, nid yw union gynnwys na strwythur Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wedi cael eu datblygu er y rhagwelir y gallai gynnwys cyfres o bolisïau a fydd yn darparu’r cyd-destun ar gyfer darparu datblygiad a pholisi cenedlaethol.

6.1.2 Bydd angen i’r dull o arfarnu elfennau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gadw, felly, elfen o hyblygrwydd tan i’r cynnwys gwirioneddol gael ei ddatblygu yn fwy manwl. Fodd bynnag, mae’n bosibl amlinellu egwyddorion sylfaenol y dull gan gynnwys Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae’r egwyddorion canlynol yn sail i’r broses arfarnu:

- Bydd yn arfarniad ansoddol yn bennaf (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol paragraffau 5.B.10 a 5.B.11).
- Bydd yn cael ei gynnal gan ymarferwyr Arfarnu Cynaliadwyedd proffesiynol, wedi eu cefnogi gan ymarferwyr Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesu’r Effaith ar Iechyd arbenigol (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol paragraffau 5.B.10 a 5.B.11).
- Bydd y gwerthusiad yn dilyn dull asesu integredig ac ailadroddol (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol Ffigur 6 a pharagraffau 2.26-2.28).
- Bydd gwaith ymgysylltu ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan gynnwys cyfres o weithdai hefyd yn cael ei wneud i alluogi rhanddeiliaid arbenigol eraill (ochr yn ochr â’r ymgyngoreion statudol) i gyfrannu at yr arfarniad (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol pennod 3).
- Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion arfarnu (Tabl 5-3) fydd y prif ddull arfarnu (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol paragraffau 5.1.12 a 5.1.13).
- Bydd yr arfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth (gan ddefnyddio setiau data ansoddol a meintiol) ac yn ystyried effeithiau tebygol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar linell sylfaen cynaliadwyedd (llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) Cymru (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol paragraffau 5.A.5-9).
- Bydd yr arfarniad yn cynnwys sylw i effeithiau’r strategaeth ac yn defnyddio tystiolaeth o gyfyngiadau, agweddau sensitif a chyfleoedd ffisegol, cymdeithasol ac economaidd (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol paragraffau 5.A.5 a 5.A.6).
- Bydd yr arfarniad yn defnyddio matricsau i helpu i ddisgrifio effeithiau posibl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol Atodiadau 6 a 7).
- Fel sy’n ofynnol o dan y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol, bydd yr arfarniad yn ystyried effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol; effeithiau eilaidd, cyfunol a synergeddol (gweler Tabl 5-1); effeithiau dros le ac amser (hirdymor, tymor canolig a

byrdymor); y gallu i wrthdroi effeithiau; effeithiau trawsffiniol a lefel yr hyder yn yr arfarniad (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol Atodiadau 7 ac 8).

- Bydd yr arfarniad yn ailadroddol ac yn cynnwys adborth ar argymhellion i dîm Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i nodi mesurau i liniaru rhag unrhyw effeithiau negyddol a nodir neu i gynyddu ymhellach unrhyw effeithiau cadarnhaol (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol Atodiad 7).
- Bydd yr opsiynau a ffefrir ar gyfer elfennau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'u hopsiynau amgen rhesymol yn cael eu harfarnu (Canllaw Ymarferol Asesu Amgylcheddol Strategol Atodiad 6).

6.1.3 Nodir bod y dull canlynol yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol. Pan fo'n berthnasol, mae'r rhan briodol o'r ddogfen '*A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*'[16] wedi ei chynnwys mewn cromfachau yn y rhestr uchod. Mae Tabl 5-4 yn dangos sut y mae gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion i'w defnyddio i arfarnu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

*Tabl 5-1 Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cyfunol a Synergeddol*

| Math o Effaith | Diffiniad |
|---|---|
| Eilaidd (neu anuniongyrchol) | Effeithiau nad ydynt yn ganlyniad uniongyrchol o'r cynllun (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru); ond sy'n digwydd oddi wrth yr effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth. |
| Cyfunol | Mae effeithiau'n codi, er enghraifft, lle mae trafnidiaeth mewn lleoliadau penodol yn cael effaith ansylweddol, ond yn cael effaith sylweddol gyda'i gilydd; neu lle mae sawl effaith unigol o'r cynllun (e.e. sŵn, llwch a gweledol) yn cael effaith gyfunol. |
| Synergyddol | Mae effeithiau yn rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na chyfanswm yr effeithiau unigol. |

*Ffynhonnell:* A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, *Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog*

### 6.1.4 Dull o Gynnal Asesiadau Effaith

6.1.5 Mae ein dull integredig o asesu effaith Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn dod ag asesiadau allweddol ynghyd mewn un fframwaith arfarnu. Mae'r dull hwn yn caniatáu iddynt gael eu hintegreiddio yn effeithiol. Mae Tabl 5-5 yn dangos sut mae gofynion yr asesiadau effaith wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o amcanion i'w defnyddio i arfarnu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

6.1.6 Mae canllawiau ar yr asesiadau effaith, pan fyddant ar gael, yn nodi'r dulliau i'w defnyddio ar gyfer pob un o'r asesiadau effaith; maent yn cynnwys y camau canlynol yn gyffredinol:

- Sgrinio/ cwmpasu.

[16] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon 2005

- Asesu – nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol a chyfleoedd i hybu gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd, hawliau plant a’r Gymraeg.
- Adrodd ac argymhellion – sicrhau tryloywder y broses a ddefnyddiwyd a nodi manylion y penderfyniadau a wnaed gan gynnwys pa fesurau osgoi a lliniaru a gynigir.
- Adolygu, monitro ac arfarnu.

### 6.1.7 Cwmpas Daearyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

6.1.8 Bydd cwmpas daearyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei ysgogi gan gwmpas daearyddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru h.y. Cymru gyfan. Mae graddfa ddaearyddol materion llinell sylfaen penodol yn golygu y byddant yn cysylltu’n agos â Lloegr ac Iwerddon o bosibl. Er enghraifft, gall mudo a chymudo ar gyfer gwaith, darpariaeth o wasanaethau ac addysg i gyd arwain at lifoedd o bobl ar draws ffiniau. Mae hyn hefyd yn golygu bod effeithiau daearol a morol (hyd at y marc distyll cymedrig) yn bosibl ac y bydd angen eu hystyried.

### 6.1.9 Cwmpas Amser yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

6.1.10 Bwriedir i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru bennu gweledigaeth 25 mlynedd tymor hwy ar ôl ei chyhoeddi yn 2020. Bydd yr amserlen hon yn cael ei hadlewyrchu yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Os yw’n debygol y bydd unrhyw effeithiau cynaliadwyedd o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a fyddai’n para’n hwy na hyn, byddai’r rhain yn cael eu hystyried hefyd.

## 6.2 Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

6.2.1 I brofi perfformiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, rydym wedi sefydlu Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys 13 o amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (yn rhoi sylw i faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei harfarnu yn erbyn bob Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig yn unigol ac yn gyfannol. Grwpiwyd meysydd pwnc yn seiliedig ar ddyfarniad proffesiynol at ddibenion eglurder, ond yn ymarferol, bydd yr asesiad yn cwmpasu'r rhyng-gysylltiadau rhwng pob un o'r amcanion ac yn llywio cwestiynau, pan fyddant yn berthnasol i'r asesiad.

6.2.2 Er mwyn helpu i fesur perfformiad elfennau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn erbyn Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, caiff y rhain eu hategu gan gyfres o gwestiynau. Casglwyd data sylfaenol ar y raddfa genedlaethol ac is-genedlaethol (gweler Atodiad B), gan fod hyn yn cynnig ffordd ddarganfod perfformiad presennol ledled Cymru a mesur faint o ymyrraeth neu faint y gwaith sydd ei angen i sicrhau cyfeiriad cadarnhaol o ran sicrhau datblygiad mwy cynaliadwy.

6.2.3 Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn wahanol i amcanion llesiant ehangach y Llywodraeth, er y gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt yn unol â Thabl 5-2.

*Tabl 5-2 Esboniad o Amcanion*

| Amcanion | Diben |
|---|---|
| Amcanion Arfarnu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Fe'i defnyddir i brofi perfformiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i ganiatáu i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gael eu hystyried yn llawn. |
| Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n nodi sut y byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i helpu i ddarparu ein rhaglen lywodraethu a sicrhau bod ein cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol cyffredin mor fawr â phosibl. |

### 6.2.4 Datblygu Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

6.2.5 Mae Tabl 5-3 yn cyflwyno Amcanion arfaethedig yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a chwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio. Nodir y nodau llesiant cyfatebol yn y tabl. Datblygwyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig gan ddefnyddio'r canlynol:

- Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.
- Adolygiad o wybodaeth llinell sylfaen, problemau a chyfleoedd.
- Mewnbwn o'r ffrydiau arfarnu eraill a nodir yn Adran 1 yr adroddiad hwn, ac yn nodedig: Iechyd, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Economaidd.
- Profiad o ddatblygu Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd eraill yng Nghymru a thu hwnt.

- Bydd ychwanegiadau at y Fframwaith a bydd yn cael ei addasu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys, yn benodol, yr Ymgynghoriad Cwmpasu ffurfiol.

6.2.6 I grynhoi, nododd yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion yn Atodiad A amrywiaeth o themâu allweddol (gweler Tabl 3-2). Fel man cychwyn, dyluniwyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i adlewyrchu'r themâu allweddol hyn. Yn dilyn yr adolygiad o ddata amgylcheddol llinell sylfaen yn Atodiad B lle nodwyd materion cynaliadwyedd allweddol (gweler Tabl 4-1), mireiniwyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i sicrhau eu bod yn cymryd y materion cynaliadwyedd allweddol hyn i ystyriaeth h.y. i sicrhau y byddai bodloni Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn helpu i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru.

6.2.7 Er enghraifft, nododd yr adolygiad yn Atodiad A thema allweddol o'r angen i leihau llygredd aer a sicrhau gwelliannau i ansawdd aer. Nododd yr adolygiad o ddata amgylcheddol llinell sylfaen yn Atodiad B broblem cynaliadwyedd allweddol o fynd y tu hwnt i derfynau llygredd aer mewn gwahanol rannau o Gymru. Dyluniwyd Amcan 8 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (gweler Tabl 5-3), sef *'Annog mesurau diogelu a gwella ansawdd aer'*, felly i adlewyrchu'r thema allweddol a'r mater allweddol o ansawdd aer. Bydd asesiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac argymhellion ar gyfer Amcan 8 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn fodd felly o sicrhau bod y thema allweddol o lygredd aer, a'r mater allweddol o wella ansawdd aer, yn cael eu hintegreiddio yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

6.2.8 Mae'r cwestiynau cynorthwyo penderfyniad a fydd yn cael eu defnyddio i lywio'r asesiad yn erbyn yr Amcan hwn yn seiliedig ar brofiad arbenigol ac arfer gorau Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ni fydd yr holl gwestiynau canllaw yn cael eu defnyddio yn rhan o'r asesiad ar bob cam; bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei asesu a'r perthnasedd ar yr adeg honno. Bydd y broses asesu yn dryloyw ac yn eglur ynghylch sut y caiff y cynllun ei ddatblygu a bydd yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd.

6.2.9 Aseswyd Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hefyd ar gyfer eu cydweddoldeb mewnol ac mae matrics cydweddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad C. Diben yr ymarfer hwn yw amlygu unrhyw botensial ar gyfer diffyg anghydweddoldeb yn gynnar fel y gellir cydbwyso unrhyw broblemau posibl o fewn y Fframwaith. Mae'r matrics yn dangos bod y berthynas rhwng Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn niwtral yn bennaf h.y. dim effaith eglur neu'n cydweddu. Nodwyd rhai anghydweddoldebau ansicr hefyd; nodir y rhain yn fwy manwl yn Atodiad C.

6.2.10 Mae Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn aml yn debygol o gynnwys rhyw raddau o wrthdaro neu ansicrwydd wrth weithredu cynlluniau penodol. Mae'r broses weithredu o reidrwydd yn ceisio nodi'r cyfaddawdau rhwng unrhyw achosion o wrthdaro ac ansicrwydd o'r fath.

6.2.11 Nid yw Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig mewn unrhyw drefn benodol ac nid yw eu safle a'u rhif yn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ddynodiad o drefn pwysigrwydd na ffafriaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei hasesu yn erbyn holl Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i'r un lefel o fanylder.

*Tabl 5-3 Amcanion a Chwestiynau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| 1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru | • Cyfrannu at welliant i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig mewn ardaloedd ynysig/gwledig?<br>• Cyfrannu at welliant i hygyrchedd gwasanaethau iechyd a lles cyfrwng Cymraeg?<br>• Cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?<br>• Hybu ffyrdd iach o fyw trwy fentrau cynllunio trafnidiaeth a hybu teithio llesol?<br>• Lleihau effaith seilwaith trafnidiaeth ar gyfyngu cysylltedd o fewn cymunedau trwy eu gwahanu o bobtu'r ffordd?<br>• Lleihau perygl o draffig ar y ffyrdd, yn enwedig i grwpiau agored i niwed a blaenoriaeth?<br>• Lleihau straen i yrwyr, a straen posibl a achosir i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd?<br>• Lleihau effeithiau iechyd trafnidiaeth, gan gynnwys effeithiau ansawdd aer a sŵn, fel iechyd a straen anadlol a chardiofasgwlaidd?<br>• Cyfrannu at wella mynediad at fannau agored gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a mynediad at Barciau Cenedlaethol trwy drafnidiaeth rad a hygyrch?<br>• Sicrhau y gall plant ddatblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da?<br>• Cyfrannu at leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| 2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant | • Creu amodau i leihau lefelau trosedd a'r ofn o drosedd? | Cymru o gymunedau cydlynus |

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | • Gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, fel bod mynediad yn deg?<br>• Gwella hygyrchedd ac argaeledd llwybrau cerdded a beicio, fel bod mynediad yn deg?<br>• Gwella diogelwch, cyfleustra a hygyrchedd llwybrau cerdded a beicio fel bod cerdded a beicio yn cael eu hystyried yn opsiynau realistig, diogel a deniadol i bobl o bob oed, cefndir a gallu?<br>• Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i foddhad pobl gyda'u cymdogaethau fel lleoedd i fyw?<br>• Creu'r amodau lle gellir gwella cydraddoldeb yn seiliedig ar gefndir neu amgylchiadau?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau anghydraddoldeb oed?<br>• Creu'r amodau lle gellir gwella anghydraddoldebau yn seiliedig ar anabledd, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd?<br>• Annog a chefnogi cynnydd i lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg i bob aelod o gymdeithas trwy fwy o hygyrchedd?<br>• Cynorthwyo'r darparwyr trafnidiaeth trydydd sector a chymunedol a nodi cyfleoedd ar gyfer twf er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau trefol, gwledig a lled-wledig? | Cymru lewyrchus<br>Cymru iachach |
| 3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth | • Cefnogi mynediad teg at gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant?<br>• Annog mynediad cynaliadwy at gyfleusterau ac atyniadau i dwristiaid?<br>• Annog mesurau i hybu cysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol gwell a chydnerth, gan gynnwys yn yr awyr, ar y môr, ar ffyrdd ac ar reilffyrdd?<br>• Cefnogi adfywiad ardaloedd sy'n tanberfformio? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn |

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| | • Cefnogir cludiant nwyddau a gwella dibynadwyedd a gwydnwch y rhwydweithiau trafnidiaeth cludo nwyddau ar ffyrdd, rheilffyrdd ac yn yr awyr?<br>• Annog mewnfuddsoddiad?<br>• Annog gwell cynhyrchiant trwy well cysylltedd?<br>• Cefnogi gwelliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig?<br>• Cefnogi ac annog gweithgareddau trydydd sector, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol?<br>• Cefnogi camau i leihau'r angen i deithio ar gyfer gwaith?<br>• A fyddai'n helpu i leihau anghydraddoldebau yn gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol? | ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden | • Hybu mynediad cynaliadwy a chydnerth at asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru?<br>• Annog mesurau i wella asedau treftadaeth ddiwylliannol, mannau hamdden a'u lleoliad?<br>• Cyfrannu at reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a hamdden a digwyddiadau diwylliannol?<br>• Cyfrannu at reoli teithio mewn ardaloedd twristiaeth yn effeithlon yn ystod cyfnodau brig? | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| 5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg | • Ceisio cefnogi gwell mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg?<br>• Ceisio cefnogi cynnydd i'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

| **Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| | • Ceisio cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy fentrau trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu?<br>• Ceisio hybu'r Gymraeg trwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, ar arwyddion ffyrdd ac ar arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau? | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth | • Annog gostyngiad i allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r seilwaith trafnidiaeth presennol?<br>• Cyfrannu at ostyngiad i allyriadau $CO_2$ o'r sector trafnidiaeth?<br>• Annog technoleg lanach ar gyfer trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau lle mae angen i ddylunio cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd?<br>• Annog lleihad i'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni?<br>• Cynyddu'r potensial ar gyfer defnyddio ffynonellau ynni carbon isel neu ddim carbon?<br>• Lleihau cyfanswm y traffig ar y ffyrdd trwy leihau'r angen i deithio, lleihau pellteroedd teithio a chynyddu'r opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd | • Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd?<br>• Annog pob datblygiad trafnidiaeth newydd i fod yn gydnerth yn erbyn y newid yn yr hinsawdd?<br>• Lleihau'r anghydraddoldebau a geir o ran mynediad at drafnidiaeth yn ystod digwyddiadau llifogydd? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| | • Lleihau'r perygl cynyddol o lifogydd a/neu lifogydd arfordirol a hybu gwaith i ddiogelu gorlifdir neu ardaloedd o berygl llifogydd a reolir?<br>• Sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i wella cydnerthedd ecosystemau a swyddogaethau sy'n helpu i leihau pa mor agored ydym o ran yr hinsawdd?<br>• Cyfrannu at weithrediad addasiadau arfordirol oherwydd erydu arfordirol? | |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd aer | • Creu'r amodau lle gellir gwella a diogelu ansawdd aer?<br>• Lleihau effeithiau negyddol trafnidiaeth ar ansawdd aer lleol?<br>• Gwella ansawdd aer i gael gwared ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol a lleihau'r tebygolrwydd o fod angen Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd trwy fentrau trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau'r allyriadau posibl o draffig a diwydiant?<br>• Lleihau effaith anghymesur ansawdd aer gwael ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 9 Diogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau | • Annog camau i ddiogelu a gwella ardaloedd o gymeriad tirwedd, unigrywedd, amrywiaeth ac ansawdd?<br>• Annog camau i ddiogelu a gwella cymeriad ac ansawdd trefluniau?<br>• Hybu dyluniad sensitif wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth?<br>• Lleihau effeithiau niweidiol traffig ar y ffyrdd a pharcio (e.e. ymyrraeth weledol a sŵn) ar dirweddau a threfluniau gwerthfawr Cymru? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| 10 Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth | • Annog camau i warchod a gwella asedau treftadaeth a'u lleoliadau, a allai gynnwys rhai asedau trafnidiaeth eu hunain?<br>• Annog gwaith i uwchraddio asedau treftadaeth presennol, fel pontydd hanesyddol, i fodloni safonau gweithredu a ddiweddarwyd?<br>• Annog camau i warchod a gwella'r dirwedd hanesyddol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau | • Hybu camau i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a chydnerth ar dir sy'n diogelu gwasanaethau ecosystem er budd bywyd gwyllt a phobl?<br>• Annog camau i warchod a gwella safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau gan gynnwys eu cysylltedd yn y dirwedd?<br>• Annog camau i warchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau annynodedig, gan gynnwys eu cysylltedd yn y dirwedd?<br>• Sicrhau gwelliant i gyfleoedd i bobl gael mynediad at fywyd gwyllt a mannau gwyrdd agored?<br>• Hybu dyluniad da o seilwaith trafnidiaeth i sicrhau manteision bioamrywiaeth?<br>• Diogelu geoamrywiaeth? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 12.Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | • Cyfrannu at ddiogelu a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb?<br>• Annog y defnydd o ddeunyddiau ailgylchu a chynaliadwy wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth, gyda phwyslais ar leihau'r carbon corfforedig mewn seilwaith trafnidiaeth newydd?<br>• Lleihau cyfanswm gwastraff trwy fentrau trafnidiaeth? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

| Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer asesu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn….?** | **Nod llesiant** |
| | • Annog camau i warchod pridd, gan gynnwys osgoi llygredd pridd?<br>• Cynyddu cyfleoedd i fwynhau amgylchedd naturiol a rhwydwaith hawliau tramwy Cymru trwy bob math o deithio llesol? | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau | • Annog camau i osgoi cynefinoedd ac aneddiadau sy'n sensitif i lygredd sŵn?<br>• Annog camau i gynnal ac ehangu ardaloedd tawel?<br>• Hybu camau i leihau a lliniaru llygredd golau, yn enwedig yn y nos?<br>• Hybu'r defnydd o liniaru a gwelliannau i ardaloedd a effeithir gan lygredd sŵn?<br>• Lleihau nifer yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan lygredd sŵn? | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

### 6.2.1 Sylw i Bynciau'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Integredig fesul Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

*6.2.2* Mae Tabl 5-4 yn nodi lle y rhoddir ystyriaeth i bob un o'r pynciau amgylcheddol a restrir yn Atodiad 1(f) y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, yn ogystal â phobl un o'r gwahanol asesiadau effaith sy'n ffurfio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Sgriniwyd yr holl bynciau ac asesiadau effaith hyn i mewn i'r asesiad.

*Tabl 5-4 Pynciau'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a phrif amcanion perthnasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*

| Pwnc yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Integredig | Prif Amcan(ion) yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Sgriniwyd i mewn? |
|---|---|---|
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Bioamrywiaeth | 6, 7, 8, 9 ac 11 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Poblogaeth | 1, 2, 3, 5, 6, 7 a 12 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Iechyd Pobl | 1, 2, 6, 7, 8 a 13 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Ffawna | 6, 7, 8, 9 ac 11 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Fflora | 6, 7, 8, 9 ac 11 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Pridd | 6 7, 8, 9 ac 11 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Dŵr | 6, 7, 11 a 12 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Aer | 6, 7, 8, 11 a 12 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Ffactorau Hinsoddol | 3, 6, 7, 8, 9, 11 a 12 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Asedau Perthnasol | 3, 6, 7, 9, 10 a 12 | Do |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol | 4, 5, 9 a 10 | Do |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad Amgylcheddol Strategol: Tirwedd | 4, 9, 10 a 13 | Do |
| Iechyd | 1, 2, 6, 7, 8 a 13 | Do |
| Cydraddoldebau | 1, 2 a 3 | Do |
| Y Gymraeg | 4 a 5 | Do |
| Prawfesur Gwledig | 1, 3, 9 a 13 | Do |
| Hawliau Plant | 1 a 2 | Do |
| Newid yn yr Hinsawdd | 3, 6, 7, 8, 9, 11 a 12 | Do |
| Datblygu Economaidd | 1, 2, 3, 9, 10 a 12 | Do |

# 7 Y Camau Nesaf

## 7.1 Cyffredinol

7.1.1 Mae Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn wedi amlinellu sut y bwriedir cynnal yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae ymatebion i sylwadau'r ymgyngoreion, a sut y maent wedi llunio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, wedi eu cofnodi a'u cynnwys yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

7.1.2 Y cam nesaf i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw cyhoeddi'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ddrafft. Bydd Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei gyhoeddi ac yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â hon. Bydd yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn:

- Dangos sut y mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi llunio datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Nodi'r dull ar gyfer yr arfarniad;
- Cyflwyno'r opsiynau a ystyriwyd, sut y cawsant eu nodi ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigir
- Cyflwyno effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru; a
- Disgrifio'r cynigion ar gyfer monitro.

7.1.3 Ceir rhagor o wybodaeth am gamau proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn y dyfodol yn Adran 2.1 yr adroddiad hwn.

# ATODIAD A Geirfa ac Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Diogelu'r Amgylchedd Perthnasol

# ATODIAD B Data Llinell Sylfaen, Materion Allweddol a Chyfleoedd

# ATODIAD C Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Profwyd pob un o 13 o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer eu cydweddoldeb â'i gilydd. Aseswyd mai niwtral oedd cydweddoldeb mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn wreiddiol h.y. dim effaith eglur neu'n gadarnhaol gan fod pob un ohonynt yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Fodd bynnag, aseswyd bod cydweddoldeb rhai o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ansicr.

Amlinellir yr agweddau ansicr hyn yn y paragraffau isod.

Sgoriwyd ansicrwydd yn erbyn Amcan 6 yr Arfarniad Cynaliadwyedd sef 'Creu'r amodau lle gellir lleihau a chyfyngu allyriadau nwyon tŷ gwydr' ac Amcanion 9, 10 a 13 yr Arfarniad Cynaliadwyedd oherwydd bod gan y ddarpariaeth o seilwaith ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt y potensial i effeithio ar gymeriad y dirwedd, asedau treftadaeth, tawelwch ac ansawdd.

Aseswyd bod y cydweddoldeb yn ansicr rhwng Amcan 3 yr Arfarniad Cynaliadwyedd sef 'Cefnogi twf economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth' a nifer o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gan y gallai mesurau i hybu'r economi arwain at fod angen mwy o dir ac felly arwain at rai effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | + | | | | | | | | | | | | |
| 3 | + | + | | | | | | | | | | | |
| 4 | + | + | + | | | | | | | | | | |
| 5 | + | + | ? | + | | | | | | | | | |
| 6 | + | + | ? | | | | | | | | | | |
| 7 | + | + | ? | | | + | | | | | | | |
| 8 | + | + | ? | | | + | + | | | | | | |
| 9 | + | + | ? | + | ? | ? | + | + | | | | | |
| 10 | + | + | ? | + | + | ? | + | + | + | | | | |
| 11 | + | + | ? | | | + | + | + | + | + | | | |
| 12 | + | + | ? | | | + | + | + | + | + | + | | |
| 13 | + | + | ? | | | ? | ? | ? | + | + | ? | + | |

Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| | |
|---|---|
| Amcanion yn gydwedd | = + |
| Anghydweddol â'i gilydd | = - |
| Cydweddoldeb yn anhysbys | = ? |
| Dim effaith eglur ar ei gilydd wag) | = (gadawyd yn |

Rhestrir Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig isod:

1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru

2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb
3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth
4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden
5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg
6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth
7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd
8. Diogelu a gwella ansawdd aer
9. Diogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau
10. Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth
11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol
13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau

# ATODIAD D Ymatebion i'r Ymgynghoriad